

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)	STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)
DYDD MAWRTH, 24 CHWEFROR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	TUESDAY, 24 FEBRUARY, 2015 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y SIR, LLANGFNI	YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alwyn Rowlands

Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

Athrawon/Teachers

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Gwag/Vacant (Sector Uwchradd/Secondary Sector)

Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 7 HYDREF, 2015** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2014.

3 **MATERION YN CODI** (Tudalennau 5 - 10)

- Kirsty Williams, Yr Eglwys yng Nghymru i adrodd yn ôl mewn perthynas â'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi ysgolion ym Môn.
- Ymgynghorydd Her GwE i adrodd yn ôl ar yr adolygiad o'r Cwricwlwm (*Araith y Gweinidog Addysg ynghlwm*)
- Ymgynghorydd Her GwE i adrodd yn ôl ar Gynllun Gweithredu'r CYSAG (*Ynghlwm*)

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2013/14** (Tudalennau 11 - 30)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn 2013/14.

5 **AROLYGIADAU YSGOLION - HYDREF 2014** (Tudalennau 31 - 34)

Cyflwyno gwybodaeth ynglyn ag arolygiadau ysgolion yn ystod Hydref, 2014.

6 **HUNAN-ARFARNIADAU YSGOL** (Tudalennau 35 - 40)

Cyflwyno adroddiadau hunan-arfarnu gan Ysgol Llangoed ac Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn.

7 **CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2014** (Tudalennau 41 - 44)

Cyflwyno adroddiad Ymgynghorydd Her GwE.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 45 - 80)

Cyflwyno gwybodaeth ynglyn â'r isod –

- Gweithgareddau'r Gymdeithas 2013/14
- Adroddiad y Trysorydd
- Cofnodion Cyfarfod 2ail Gorffennaf, 2014
- Rhaglen ar gyfer Cyfarfod 26 Tachwedd, 2014 yn Nhorfaen

(Adroddiad ynghlwm)

- Cofnodion drafft cyfarfod 26 Tachwedd, 2014 yn Nhorfaen

(Ynghlwm)

- Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a swydd yr Is-Gadeirydd

(Ynglwm)

9 UNRHYW FUSNES ARALL

Ystyried unrhyw fater arall sydd angen sylw.

10 CYFARFOD NESAF

Dydd Mawrth, 16 Mehefin, 2015.

This page is intentionally left blank

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2014

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) Yr Awdurdod Addysg Y Cynghorwyr Alun W Mummery a G O Jones Enwadau Crefyddol Mr. Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)(Is-Gadeirydd) Mr. Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig) Mr. Stephen F. Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd) Mrs. Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru) Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) Cynrychiolwyr Athrawon Mrs. Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones) Aelod Cyfetholedig Y Parch. Elwyn Jones (Cyngor Ysgolion Sul)
WRTH LAW:	Mr. D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd)(Clerc i'r CYSAG) Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd R.LI. Jones Mrs. Alison Jones (Ysgol Parch. Thomas Ellis) Ms. Bethan LI. Jones (Ysgol y Graig) Ms. Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)
HEFYD YN BRESENNOL:	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg Gydol Oes) Mrs. Bethan James (Arweinydd Systemau – GwE)

1 Datganiadau o Ddiddordeb

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2014

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3 Materion yn Codi

- **Gweithio mewn Partneriaeth**

Nododd y Swyddog Addysg Gynradd fod Kirsty Williams (yr Eglwys yng Nghymru) wedi rhoi cyflwyniad i'r cyfarfod diwethaf o'r CYSAG mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth. Gofynnwyd i Ms. Williams adolygu'r cynigion yn ei hadroddiad ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

Nid oedd Ms. Williams yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn ond roedd wedi ymateb fel a ganlyn:-

"O ran ehangu'r adroddiad ar yr Eglwys yng Nghymru yn cefnogi ysgolion yn Ynys Môn, rydym yn edrych ar y gefnogaeth sydd ei hangen ar hyn o bryd ac yn drafftio adroddiad sy'n cynnwys cyfranogiad gan yr ysgolion ac yn anffodus felly ni fydd wedi ei gwblhau tan y cyfarfod nesaf."

PENDERFYNWYD disgwyl am adroddiad i gyfarfod nesaf y CYSAG mewn perthynas â'r uchod.

- **Gohebu gydag Estyn - Safonau Addysg Grefyddol**

Nodwyd bod llythyr wedi anfon at Brif Arolygydd Estyn yn unol â phenderfyniad y CYSAG yn ei gyfarfod diwethaf.

- **Adolygiad Annibynnol o Asesu a Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru**

Dywedodd yr Arweinydd Systemau ei bod wedi ymateb yn ffurfiol i'r holiadur ar ran y Pwyllgor hwn yn seiliedig ar y sylwadau a fynegwyd yn ystod y drafodaeth ar y mater yn y cyfarfod diwethaf. Nododd bod ymateb wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru yn dweud y gobeithir y bydd Addysg Grefyddol yn rhan o unrhyw newid i'r cwricwlwm fel bod unrhyw newidiadau sy'n digwydd i bynciau eraill yn cynnwys Addysg Grefyddol hefyd. Roedd yn gobeithio hefyd y byddai swyddogion sy'n delio gydag Addysg Grefyddol yn cael gwahoddiad i unrhyw gyfarfodydd cenedlaethol a drefnir i adolygu'r cwricwlwm ar gyfer Cymru. Gan nad yw Addysg Grefyddol yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mae perygl y bydd yn cael ei hanwybyddu pan fo trafodaethau'n digwydd.

Nododd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda hyn pan geir ymateb gan Lywodraeth Cymru.

4 Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Arweinydd Systemau mewn perthynas â Chynllun Gweithredu drafft ar gyfer CYSAG Ynys Môn am y cyfnod 2013-2015.

Dywedodd yr Arweinydd Systemau ei fod yn arferol i CYSAG Ynys Môn baratoi Adroddiad Blynyddol. Yn 2013 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau 'Adolygiad o Adroddiadau CYSAGau 2008-2011' gan argymhell y dylai CYSAGau arfarnu eu gwaith eu hunain a monitro effaith eu gwaith ar safonau Addysg Grefyddol o fewn eu hysgolion lleol.

Rhannwyd aelodau'r Pwyllgor yn grwpiau i drafod yr isod.

I ba raddau y mae CYSAG Ynys Môn wedi medru:-

- Datblygu arweinyddiaeth dda mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
- Cau'r bwlch rhwng y safonau a gyrhaeddir gan fechgyn a genethod mewn arholiadau TGAU;
- Diweddarau gwybodaeth athrawon e.e. Canllawiau Llywodraeth Cymru ac adroddiad thematig ESTYN
- Hyrwyddo addoli ar y cyd o safon dda.

Cafwyd sesiwn atborth cyffredinol ynglŷn â'r materion a godwyd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU: Arweinydd Systemau i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y CYSAG mewn perthynas â'r uchod.

5 Addoli ar y Cyd

- Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Ms Manon Williams, Pennaeth Ysgol Gynradd Llangaffo. Cafwyd trosolwg cynhwysfawr gan Ms Williams o addoli ar y cyd yn Ysgol Gynradd Llangaffo (ysgol wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru) a dygodd sylw at yr isod:-
 - Mae gan yr ysgol gynllun addoli corfforaethol sy'n sicrhau dilyniant i'r plant ar sail ddyddiol.
 - Pwysleisir 7 o werthoedd Cristnogol yn yr ysgol.
 - Mae'r plant yn canu amrywiaeth o emynau. Cenir yr emyn 'Agor ein Llygaid' yn y gwasanaeth boreol.
 - Mae'r Rheithor lleol yn cynorthwyo yn y gwasanaeth boreol unwaith pob pythefnos.
 - Mae Grwpiau Cymunedol Lleol yn dod i'r ysgol i berfformio straeon crefyddol o'r Beibl fel rhan o'r prosiect 'Agor y Llyfr'.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Williams am ei chyflwyniad.

- Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor atborth ar eu hymweliadau addoli ar y cyd i Ysgol Bodedern ac Ysgol Parc y Bont fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.

6 Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2013/14

Cyflwynwyd – drafft cychwynnol o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am y cyfnod 2013/14.

Rhoddodd yr Arweinydd Systemau wybodaeth gefndirol i'r Aelodau ynghylch paratoi'r adroddiad ynghyd ag eglurhad cryno o'i gynnwys a oedd yn seiliedig ar drafodaethau'r CYSAG yn ei gyfarfodydd yn ystod 2013/14.

Nododd y bydd Arolygiadau gan Estyn yn ddirybudd o fis Medi ymlaen. Nodwyd y teimlir ei fod yn afresymol gofyn i Athrawon Addysg Grefyddol baratoi adroddiadau hunanarfarnu yn ystod tymor pan oedd ysgol yn cael ei harolygu. Nododd nad oedd enwau'r ysgolion nad oeddent wedi cyflwyno adroddiadau hunanarfarnu wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod yn dymuno nodi yn yr Adroddiad Blynyddol bod 10 o Arolygiadau Estyn wedi eu cynnal ar yr Ynys ac mai dim ond 3 ysgol sydd wedi cyflwyno adroddiadau hunanarfarnu.

Cytunwyd i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol y ffaith mai dim ond 3 ysgol oedd wedi cyflwyno adroddiadau hunanarfarnu o'r 10 ysgol a arolygwyd gan Estyn.

7 Arolygiadau Ysgol – Haf 2014

Cyflwynwyd gwybodaeth ynghylch casgliadau perthnasol o adroddiadau arolygiadau Estyn mewn perthynas ag Ysgol Llanfechell, Ysgol Llangaffo, Ysgol Esceifiog ac Ysgol Gyfun Llangefni.

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd nad oedd unrhyw faterion wedi codi mewn perthynas â'r ysgolion a arolygwyd.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

8 Hunanarfarniad Ysgolion

Cyflwynwyd – a derbyniwyd, adroddiadau hunanarfarnu ar Ysgol Gynradd Llangaffo ac Ysgol Gyfun Llangefni.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno mynegi ei werthfawrogiad i'r staff yn y ddwy ysgol.

GWEITHREDU: Gofyn i'r Swyddog Addysg Gynradd ysgrifennu at y ddwy ysgol i fynegi gwerthfawrogiad y CYSAG.

9 CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cylchredwyd cofnodion y cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2014.

Nododd yr Is-Gadeirydd, Mr. Rheinallt Thomas, fod Ms Vicky Thomas a Ms Gill Vaisey wedi eu hethol yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru i wasanaethu ar Bwyllgor Gwaith y CYSAG.

Rhoddodd y cefndir i'r cyfarfod CYSAGau Cymru a gofynnodd i'r CYSAG ailgofrestru gyda Chymdeithas CYSAGau Cymru am swm o £422.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Awdurdod Addysg ystyried ailgofrestru gyda Chymdeithas CYSAGau Cymru.

10 Gohebiaeth

Nododd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi derbyn e-bost gan Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn dweud ei bod yn gobeithio darparu dogfen ar gyfer ysgolion sy'n cynnwys canllawiau ynghylch hawliau rhieni i dynnu eu plant o addoli ar y cyd ac addysg grefyddol. Roedd yr Ysgrifennydd wedi holi a oedd gan yr Awdurdod Addysg unrhyw ddogfen o'r fath ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi cael ymateb nad oedd gan yr Awdurdod Addysg ddogfen o'r fath.

11 Y Cyfarfod Nesaf

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG am 2.00pm ar ddydd Mawrth 17 Chwefror 2015.

**Y Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd**

Dydd Iau 05 Chwefror 2015

Gweinidog yn gwahodd y proffesiwn addysgu i gydweithio ag ef i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru

Heddiw, mewn araith bwysig i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, gwnaeth Huw Lewis, y Gweinidog Addysg, wahodd gweithwyr proffesiynol i gydweithio ag ef i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Yn ystod ei araith ar gampws Nantgarw Coleg y Cymoedd, dywedodd y Gweinidog y byddai'r proffesiwn yn allweddol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd pan fydd yr Athro Graham Donaldson wedi cyflwyno ei adroddiad ar ddiwedd y mis.

Dywedodd na ellir gwella safonau heb wella ansawdd y rheini sydd ar y rheng flaen. Soniodd am ei gynlluniau ar gyfer 'bargen newydd' i'r gweithlu i drawsnewid datblygiad proffesiynol er mwyn eu helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a sicrhau safonau uwch yn y dosbarth.

Wrth siarad o gampws Nantgarw Coleg y Cymoedd, sydd wedi elwa ar gyllid o £34 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop, dywedodd y Gweinidog mai'r her oedd sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i'r dosbarth yn cyfateb i'r adeiladau o'r radd flaenaf sydd o'i gwmpas.

Dywedodd fod gan Gymru sylfaen gref ar gyfer gweithio tuag at y cwricwlwm newydd. Tynnodd sylw at y canlyniadau TGAU mwyaf diweddar, at lefelau cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a hefyd at adroddiad blynyddol Estyn, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, a oedd yn sôn am 'fomentwm newydd' mewn addysg yng Nghymru.

Meddai'r Gweinidog:

"Mae Cwricwlwm Cenedlaethol 1988 wedi cyflawni diben pwysig iawn ond y neges sy'n deillio o adolygiad Graham Donaldson yw bod angen cwricwlwm newydd.

"Gwyddom y bydd angen amser i ffurfio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd, ond rwyf innau a'r Athro Donaldson yn glir bod yn rhaid i'r proffesiwn addysgu fod yn ganolog i'r broses o'i ddatblygu a'i weithredu.

"Rydym eisoes wedi trafod safonau mewn ysgolion yng Nghymru. Mae proses ddiwygio uchelgeisiol yn mynd rhagddi ar hyn o bryd a newid mawr ar droed.

"Nawr mae'n bryd cael trafodaeth fawr a hanfodol arall am addysg yng Nghymru ynghylch newid y cwricwlwm. Mae angen trafod beth fydd ein pobl ifanc yn ei ddysgu dros y degawdau nesaf, a sut.

"Rwyf am i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru gael rôl allweddol yn y broses o drafod y cynigion yn adroddiad yr Athro Graham Donaldson pan fydd wedi'i gyhoeddi.

Y llynedd gwnaeth y Gweinidog Addysg benodi'r Athro John Furlong i'w gynghori ar sut i ddatblygu hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru a sicrhau bod yr athrawon gorau'n cael eu cynnwys yn y system. Bydd adroddiad terfynol yr Athro Furlong yn cael ei gyhoeddi ganol mis Mawrth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar 'fargen newydd' ar gyfer y gweithlu addysg er mwyn datblygu safonau proffesiynol newydd i athrawon, a fydd yn arwain at addysgu a dysgu o safon uwch.

Bydd hyn yn cynnwys cymhwyster Meistr newydd, llwybrau gyrfa clir, deunyddiau dysgu proffesiynol enghreifftiol a Phasbort Dysgu Proffesiynol sy'n galluogi athrawon i ddatblygu eu gyrfaedd a'u dewisiadau dysgu proffesiynol.

Wrth drafod datblygiad proffesiynol, dywedodd y Gweinidog:

"Rwyf am i'r fargen newydd gefnogi'r proffesiwn addysgu er mwyn helpu i gynnal diddordeb a brwdfrydedd athrawon a'u hannog i barhau i wella a sicrhau rhagoriaeth.

"Mae'r agenda ddiwygio'n heriol ac yn dibynnu ar allu gweithwyr proffesiynol i'w chyflawni. Rydym yn gofyn llawer gan y proffesiwn, ond rydym yn benderfynol o weithio mewn partneriaeth â nhw.

Fel rhan o'i araith, cyhoeddodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru bellach yn gallu cefnogi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer colegau AB yng Nghymru o ganlyniad i fwy o hyblygrwydd yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Roedd Campws Aberdâr Coleg y Cymoedd yn un prosiect blaenoriaeth o'r fath. Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio gyda'r Coleg i ddatblygu achos busnes a allai ganiatáu iddo gael hyd at £11 miliwn tuag at gost y prosiect, sef £22 miliwn.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd y rhaglen diwygio addysg yn ymwneud â chyllid ychwanegol nac adeiladau.













Meddai:

"Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn gwbl glir. Ni allwn sicrhau safonau uwch drwy wario. Mae'r newidiadau sydd ar y gweill yn gofyn am broffesiwn mwy medrus a defnyddio'r arferion gorau'n gyson. Rhaid i ni ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf a pharhau i anelu at y gorau - o un gweithiwr i'r llall, ac o ysgol i ysgol.

"Dyma'n cyfle i weithio gyda'r proffesiwn i drawsnewid addysg yng Nghymru a chreu system o'r radd flaenaf y bydd gwledydd eraill eisiau ei hefelychu."

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad yr Athro Graham Donaldson ar ei adolygiad o'r cwricwlwm ar ddiwedd y mis.

Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2014-15 DRAFFT

Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2012-13	Camau Gweithredu 2013-15	Tystiolaeth	Deilliannau	
<p>Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd</p> <p>Tudalen 7</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob ysgol yn derbyn arweiniad ar hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu Rhannu arferion da mewn cyfarfodydd CYSAG. Hwyluso rhannu arferion da 	<ul style="list-style-type: none"> Canllawiau hunan arfarnu Amserlen a threfn hunan arfarnu. Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion Cofnodion CYSAG Môn Cofnodion cyfarfodydd athrawon. 	<ul style="list-style-type: none"> Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2015. CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Gwahodd ysgolion i gyflwyno eu harferion gorau i aelodau CYSAG 	  
<p>Cau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn TGAU.</p> <p>Tudalen 10</p>	<ul style="list-style-type: none"> CYSAG i lythyru penaethiaid uwchradd i sicrhau bod athrawon yn cael mynediad i gefnogaeth CBAC ac yn ymwybodol o Adroddiad Thematig ESTYN. Annog athrawon TGAU i rannu arferion da mewn rhwydwaith/CDP. 	<ul style="list-style-type: none"> Llythyron i benaethiaid Cofnodion rhwydwaith/CDP addysg grefyddol TGAU Cylchlythyr/adroddiad y Prif Arholwr. 	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o fechgyn yn dewis TGAU Astudiaethau Crefyddol; Y bwlch rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn parhau i gau. 	  
<p>Diweddarau gwybodaeth athrawon addysg grefyddol, e.e. canllawiau Llywodraeth Cymru, ESTYN.</p> <p>Tudalen 12-13</p>	<ul style="list-style-type: none"> CYSAG i ddiweddarau a cylchredeg restr o ganllawiau perthnasol. 	<ul style="list-style-type: none"> Llythyr/Cylchlythyr i ysgolion Y dogfennau ar gael ar wefan Moodle CYNNAL. 	<ul style="list-style-type: none"> Hunan arfarniadau ysgolion yn dangos bod athrawon yn cynllunio gwersi sy'n ymateb i arweiniad Llywodraeth Cymru (cynradd ac uwchradd) ac yn adlewyrchu arferion da Adroddiad thematig ESTYN (uwchradd) 	  
<p>Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd</p> <p>Tudalen 14</p>	<ul style="list-style-type: none"> CYSAG i lythyru ysgolion i sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r deunyddiau diweddaraf ar gyfer addoli ar y cyd. Codi ymwybyddiaeth aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. 	<ul style="list-style-type: none"> Llythyr/cylchlythyr i ysgolion Adroddiadau llafar aelodau CYSAG Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN 	<ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda. Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. 	  

Tudalen 9

This page is intentionally left blank

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog
ar Addysg Grefyddol**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
Ynys Môn
Medi 2013 – Awst 2014**

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Dr. Gwynne Jones

CYNNWYS

ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol

2.2 Y Maes Llafur Cytûn

2.3 Pa mor dda yw safonau?

2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol

2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2013-14

3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd

3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad

3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:
CRYNODEB GWEITHREDOL**

Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n anrhydedd i mi, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2012/13. Fel "newydd-ddyfodiad" o ran bod yn aelod o'r CYSAG mae fy rôl fel Cadeirydd wedi golygu y bu angen i mi ddysgu'n sydyn mewn cyfnod byr. Rwy'n hynod o ddiolchgar felly am y gefnogaeth a'r cyngor doeth a roddwyd i mi gan yr Aelodau eraill ac am y cymorth amhrisiadwy gan y ddau swyddog, sef Ms Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) a Mr Gareth Jones (Clerc). Diolch yn arbennig hefyd i Miss Bethan James, Arweinydd Systemau ar gyfer GwE, y mae ei gweledigaeth, ei brwdfrydedd a'i gwybodaeth wedi ysbrydoli pob un ohonom.

Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd rydym wedi gweld nifer o newidiadau i weithrediad y CYSAG wrth i ni geisio bod yn fwy effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu Cynllun Gwaith sy'n seiliedig ar argymhellion yn Adroddiad Blynyddol y llynedd i sicrhau bod modd monitro cynnydd yn rheolaidd;
- Neilltuo aelodau o'r CYSAG i ymweld ag ysgolion er mwyn iddynt fedru monitro addoli ar y cyd drostynt eu hunain.
- Gwahodd athrawon o wahanol ysgolion i roi cyflwyniadau i'r CYSAG ynghylch dysgu addysg grefyddol fel bod modd i ni nodi a hyrwyddo arferion da.

Bu'n bleser hefyd croesawu dau aelod newydd i'r CYSAG, sef Ms Kirsty Williams (yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru) a Mr Christopher Thomas (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig).

Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith yn rhagor i bob aelod o'r CYSAG am eu hymrwymiad dros y 12 mis diwethaf. Wrth i ni barhau i weithio gyda'n gilydd rwy'n hyderus y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i godi safonau addysg grefyddol yma yn Ynys Môn.

Dylan Rees
Cadeirydd, 2013-14

2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyd at Fawrth 2013, hyrwyddwyd y ddogfen a deunyddiau enghreifftiol gan ymgynghorydd dyniaethau CYNNAL yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac mewn ymweliadau i ysgolion. Daeth y gefnogaeth gwricwlaidd i ben ym mis Mawrth 2013.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, *'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd'.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdodau addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Môn (28.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (26.11.13) yn dangos bod:

- holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod. Roedd un aelod yn barod i arwain sesiynau addoli ar y cyd yn achlysurol;
- llawer o aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ac yn barod i ddarllen a pharatoi dadansoddiad o sampl o hunan arfarniadau ysgol. Derbyniwyd enwau pedwar ohonynt;

- mwyafrif yn barod i ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad yr ysgol gyda'r cydlynnydd addysg grefyddol neu bennaeth adran a derbyniwyd enwau pedwar ohonynt.

2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddsbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Cyflwynwyd 3 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Y Fali a Pentraeth yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad gan Ysgol uwchradd Bodedern.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

	Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?				Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol				Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?			
	Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol	Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol	Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol
Cynradd		2				2				2		
Uwchradd		1				1				1		
Cyfanswm		3				3				3		

Roedd yr adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddisgrifio a thrafod prif nodweddion defodau, gwyliau a dathliadau crefyddol; (Ysgol Gymuned Y Fali, Pentraeth);
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyfrannu ar lafar at drafodaethau sy'n seiliedig ar gwestiynau moesol megis, *'beth sy'n gwneud ffrind da?' 'pam bod hi'n bwysig dweud y gwir'* (CS Pentraeth) a chwestiynau sylfaenol megis *'beth sy'n gwneud ni'n ddynol?'* neu *'beth sy'n real?'* (CA2 Pentraeth), *'a oes bywyd ar ôl marwolaeth?'* neu *'beth yw ystyr bywyd?'* (CA3 Uwchradd Bodedern);
- gallu'r disgyblion i nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol ar draws y crefyddau (CA2 Ysgol Gymuned Y Fali);
- hyder y disgyblion i ddefnyddio TGCh i gywain gwybodaeth mewn gwersi addysg grefyddol (Ysgol Gymuned Y Fali);
- cyflawniadau disgyblion CA3, CA4 a CA5 mewn asesiadau athrawon ac arholiadau allanol (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu gallu'r dysgwyr i ymdrin â chwestiynau mawr (Ysgol Gymuned Y Fali);
- gau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion Prydiau Ysgol am Ddim (PYD) a'u cyd-ddisgyblion (Ysgol Uwchradd Bodedern)

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- cynllunio priodol, (Ysgol Gymuned Y Fali, Ysgol Uwchradd Bodedern);
- y defnydd llwyddiannus o gwestiynau mawr fel ffocws i'r addysgu, (Ysgol Pentraeth);
- gweithgareddau dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion adeiladu ar eu dysgu blaenorol ac i ddatblygu eu sgiliau addysg grefyddol a'u gallu i fynegi barn a gwneud penderfyniadau, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- gweithgareddau llafar ac ysgrifenedig sy'n ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- adolygu'r cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau dilyniant, (Ysgol Gymuned Y Fali);
- ddatblygu llythrennedd trwy addysg grefyddol, (Ysgol Gymuned Y Fali);
- arsylwi gwersi addysg grefyddol fel rhan o waith hunan arfarnu'r ysgol, (Ysgol Gymuned Fali);
- ddenu mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc i safon TGAU, UG ac Uwch, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- ddatblygu tasgau heriol, diddorol ac ymestynnol ar gyfer y dysgwyr uwch eu gallu, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- dreialu rhagor o strategaethau datblygu meddwl ac adolygu er mwyn codi safonau a chyflawniad y dysgwyr, (Ysgol Uwchradd Bodedern);

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- cyfraniad y disgyblion i'r sesiynau addoli ar y cyd ac i ddatblygiadau crefyddol megis Diolchgarwch a Christingl, (Ysgol Y Fali);
- y cysylltiadau agos sydd rhwng yr ysgol a'r eglwys leol, (Ysgol Y Fali);
- naws ysbrydol y sesiynau addoli ar y cyd, (Ysgol Pentraeth);
- cyfraniad arwyddocaol y sesiynau addoli ar y cyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr, (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- datblygu themâu penodol a chynllunio yn fwy strwythuredig ar gyfer y sesiynau addoli ar y cyd, (Y Fali);
- arsylwi sesiynau addoli ar y cyd yn ffurfiol, (Ysgol Pentraeth)

Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion (11 Mehefin 2014) i ofyn i bob ysgol i gyflwyno'i hadroddiad hunan arfarnu yn ystod 2014-15.

Gofynnwyd i'r ysgolion hefyd i estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc, ac
- Gwahodd un cydlynnydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;
- Hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.
- Sicrhau bod ysgolion yn cyflwyno eu hadroddiadau hunan arfarnu i sylw CYSAG.

2.3.2 Aseidiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Aseidiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

Blwyddyn	Ysgolion	Disgyblion		%L5+		%L6+		%L7+	
	M+G+C	Môn	M+G+C*	Môn	M+G+C*	Môn	M+G+C*	Môn	M+G+C*
2013	5(5)+5(14)+1(7)	675	1,241	86.8	90	41.6	57.5	13.8	16.8
2012 ^o	5(5)+13(14)+4(7)	656	2,568	74.1	82.9	29.7	43.4	6.9	12.7
2011	3(5)+11(14)+2(7)	377	1,767	76.9		26.0		10.1	

* Erbyn diwedd tymor yr Hydref 2013 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 5 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd a 1 allan o 7 ysgol yng Nghonwy. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

^o Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwniaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgol arbennig wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 675 o ddisgyblion CA3 yn ystod tymor yr Haf 2013.
- Cyflawnodd 86.8% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol sy'n gynydd o 12.7% ers 2012. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 79.4% i 93.3%;
- Cyflawnodd 41.6% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol sy'n gynydd o 11.9% ers 2012. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 31.4% i 50.9%.
- Cyflawnodd 13.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynydd o 6.9% ers 2012. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 2.8% i 20.1%.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 3 ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

Ysgolion Uwchradd Ynys Môn	Nifer o ysgolion	Nifer yn sefyll			% Rhagoriaeth			% L2			% L1			Sgôr cyfartalog y pwnc		
		B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ
2013	5	32	108	140	28.1	46.3	42.1	81.3	82.4	82.1	100	100	100	44	46	46
2012	4	46	110	156	43.5	65.5	59.0	76.1	94.5	89.1	100	100	100	44	50	49
2011	5	46	100	146	21.7	58.0	46.6	67.4	92.0	84.2	100	100	100	41	49	47

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

Canlyniadau da

- 140 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn. Sgor cyfartalog y pwnc yw 46 sy'n ostyngiad o 3 phwynt ers llynedd.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 39 mewn ysgol arall.
- 42.1% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi gostwng yn sylweddol ers 2012 (-17%) ac yn dychwelyd i'r ganran a welwyd yn 2010.
- 82% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n dirywiad (-7%) o gyflawniadau 2012. Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 32 : G 108).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgor cyfartalog y merched yn 46 mewn cymhariaeth a sgor cyfartalog y bechgyn o 44. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Fodd bynnag mae canlyniadau L2 eleni yn awgrymu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cau am y pedwerydd blwyddyn o'r bron. Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 18.2%, sy'n llai na'r bwlch yn 2012 (22%).

Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

Ysgolion Uwchradd Ynys Môn	Nifer o ysgolion	Nifer yn sefyll			% Rhagoriaeth			% L2			% L1			Sgôr cyfartalog y pwnc		
		B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ
2013	2	11	32	43				72.7	84.4	81.4	100	100	100	21	25	24
2012	3	4	3	7				50.0	66.7	57.1	100	100	100	19	21	20
2011	2	32	37	69	0.0	0.0	0.0	65.6	86.5	76.8	100	100	100	20	24	22

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.

2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Arolygwyd 9 ysgol gynradd yn ystod 2013-14: Biwmares, Caergeiliog, Cemaes, Corn Hir, Ffrwd Win, Goronwy Owen, Llaingoch, Moelfre, Santes Fair. Mae adroddiadau yn nodi bod yr ysgolion yn:

- ymateb yn briodol i ofynion addysg grefyddol (Biwmares, Goronwy Owen);
- darparu ystod eang o brofiadau ysgogol (Ffrwd Win);
- cydlynu ac yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda, (Biwmares, Caergeiliog, Goronwy Owen, Llaingoch, Moelfre);
- darparu amryw o gyfleoedd eithriadol o dda i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol, (Ffrwd Win);
- darparu sesiwn addoli ar y cyd dyddiol sy'n hybu datganiad cenhadaeth yr ysgol yn llwyddiannus, (Santes Fair);
- manteisio ar gysylltiadau lleol cryf gyda'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu i ategu datblygiad ysbrydol, moesol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol (Santes Fair);
- adolygu polisiâu a gweithdrefnau'r ysgol yn gyson ac yn eu gweithredu'n effeithiol i sicrhau datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion, (Corn Hir).

2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn.

2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- <http://cymru.gov.uk> > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (<http://cbac.co.uk>)

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymhell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
 - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
 - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).
- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.
- Mae CYSAG Môn yn argymhell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrllon i'w disgyblion:
 - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
 - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ym Môn

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chyngori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Môn (28.06.14) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (26.11.14) yn dangos bod:

- holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;

- llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod. Roedd un aelod yn barod i arwain sesiynau addoli ar y cyd yn achlysurol.

Penderfyniadau

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:

Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

Athrawon, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

Aelodau etholedig

3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2013-14

Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol

Yr Eglwys Fethodistaidd

Undeb Bedyddwyr Cymru

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Yr Eglwys yng Nghymru

Undeb yr Annibynwyr

Yr Eglwys Babyddol

Y Diacon Stephen Francis Roe

Mrs Catherine Jones

Mr Rheinallt Thomas

Ms Kirsty Williams

Yr Athro Euros Wyn Jones

Mr Chris Thomas

Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
(NASUWT)

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

Cyfetholwyd

gwag

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)

gwag

gwag

gwag

Alison Jones (Ysgol Parch T Ellis)

Bethan Ll Jones (Ysgol y Graig)

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol

Cynghorydd W T Hughes

Cynghorydd Gwilym O Jones

Cynghorydd R Llewelyn Jones

Cynghorydd Alun Mummery

Cynghorydd Dylan Rees (**Cadeirydd**)

Cynghorydd Peter Rogers

Cynghorydd Alwyn Rowlands

Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)

Mrs Helen Roberts

Y Parchedig Elwyn Jones

Prifysgol Bangor

Cyngor yr Ysgolion Sul

Swyddogion

Dr. Gwynne Jones

Mr Gareth Jones

Miss Bethan James

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn

Arweinydd System GwE

Mrs Ann Holmes

Swyddog Pwyllgor

3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2013 – 2014, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

26 Tachwedd 2013
18 Chwefror 2014
17 Mehefin 2014

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

a) **Cyfarfod 26 Tachwedd 2013**

- Cefnogaeth GwE i GYSAG Ynys Môn
- 'Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd' (Adroddiad thematig ESTYN, 2013)
- Adolygiad o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2012/2013
- Pa mor dda yw safonau addysg grefyddol? Dadansoddiad o asesiadau athrawon CA3 ac arholiadau allanol TGAU.
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Cemaes, Corn Hir, Moelfre, Llaingoch
- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Ysgol Uwchradd Bodedern
- Sut gall aelodau CYSAG gefnogi'r drefn o fonitro safonau addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol? Dadansoddiad o'r holiadur
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, Gwynedd ar 19 Mehefin 2013.

b) **Cyfarfod 18 Chwefror 2014**

- Addysg Grefyddol yn Ysgol Gatholig y Santes Fair, Caergybi (cyflwyniad gan Christine Hunt)
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn (terfynol) 2011/12
- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Ysgol Gymuned y Fali, Ysgol Pentraeth
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Ffrwd Win, Caergeiliog, Santes Fair.
- Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac adolygiad o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru
- Llyfr caneuon 'O Dduw, ein Tad' (Esgobaeth Bangor)
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2013.

c) **Cyfarfod 17 Mehefin 2014**

- Gweithio mewn partneriaeth: cyflwyniad gan Kirsty Williams, Galluogwr Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys yng Nghymru.
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Biwmares, Goronwy Owen

- Cyflawni dyletswyddau monitro CYSAG Môn;
- Cynhadledd Diogelu Gogledd Cymru, 28 Mawrth 2014: adroddiad gan Ddiacon Stephen Roe
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 27 Mawrth 2014

3.3.1 Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – arweinydd system GwE

3.3.2 Darperir cynhaliath broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Dr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Mr Gareth Jones, Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG

Miss Bethan James, arweinydd system GwE

Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

Darperir copi papur i:

- Aelodau CYSAG Môn

3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir i gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod 2013-14, (gweler llythyr 11.06.14).

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG): Mr Gareth Jones

Cyfeiriad: Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol:

Addysg Grefyddol							
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?							
<ul style="list-style-type: none"> • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion. • Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. 							
<p>Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC.</p>							
Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu							
Materion i gael sylw							
Rhagorol		Da		Digonol		Anfoddhaol	

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?							
<ul style="list-style-type: none"> • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir. • Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel. • Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2. • Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). 							
<p>Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol</p>							
Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau							
Materion i gael sylw							
Rhagorol		Da		Digonol		Anfoddhaol	

Addoli ar y Cyd							
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?							
Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?				Ydy	Nac ydy		
<p>Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).</p>							
Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd							
Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd							
Rhagorol		Da		Digonol		Anfoddhaol	

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?

<table border="1"> <tr><td colspan="3">Nifer yn sefyll</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	Nifer yn sefyll			B	G	Σ	Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr.
Nifer yn sefyll							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% Rhagoriaeth</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% Rhagoriaeth			B	G	Σ	Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr.
% Rhagoriaeth							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% L2</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% L2			B	G	Σ	Mae'r amrediad o achrediaidau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr
% L2							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% L1</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% L1			B	G	Σ	Mae'r amrediad o achrediaidau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr
% L1							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">Sgôr cyfartalog y pwnc</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	Sgôr cyfartalog y pwnc			B	G	Σ	Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr
Sgôr cyfartalog y pwnc							
B	G	Σ					

Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?

<table border="1"> <tr><td colspan="3">Nifer yn sefyll</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	Nifer yn sefyll			B	G	Σ	Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr.
Nifer yn sefyll							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% Rhagoriaeth</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% Rhagoriaeth			B	G	Σ	Mae'r amrediad o achrediaidau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr.
% Rhagoriaeth							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% L2</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% L2			B	G	Σ	
% L2							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">% L1</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	% L1			B	G	Σ	
% L1							
B	G	Σ					
<table border="1"> <tr><td colspan="3">Sgôr cyfartalog y pwnc</td></tr> <tr><td>B</td><td>G</td><td>Σ</td></tr> </table>	Sgôr cyfartalog y pwnc			B	G	Σ	Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir.
Sgôr cyfartalog y pwnc							
B	G	Σ					

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiadau Estyn Reports

HYDREF 2014 AUTUMN.

Ysgol Parch. Thomas Ellis.

Trwy gydweithio agos, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas. Mae'r holl bolisiâu sy'n ymwneud â hyn yn cael eu cyfathrebu'n dda i randdeiliaid.

Mae gan yr ysgol ddatganiad o genhadaeth a gwerthoedd Cristnogol cadarn. Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, gofalggar, hapus a chynhwysol. Nodwedd gref yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a, thrwy hynny, magu agwedd o barch a hunanhyder. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Through close co-operation, teachers plan interesting and stimulating learning opportunities that meet the requirements of the National Curriculum, the Foundation Phase and religious education.

The school develops pupils' spiritual, moral, social and cultural attitudes suitably. All policies associated with this are communicated well to stakeholders.

The school displays a strong Christian mission and values. The school's ethos reflects the welcoming, caring, happy and inclusive atmosphere. A strong feature is the family ethos that encourages pupils to take care and responsibility for their fellow pupils and that fosters an attitude of respect and self-confidence. Pupils are encouraged to understand other people of various backgrounds and they are prepared well for the next steps in their education.

Ysgol Parc y Bont.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu amrywiol yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol.

Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae iddi ethos gofalgarg ac mae'r staff yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion o ran eu brwdfrydedd tuag at eu gwaith a'u hyder yn gymdeithasol. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol. Mae parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy raglenni addysg personol a chymdeithasol a thrwy hyrwyddo gwerthoedd.

The school provides various learning experiences successfully. The curriculum is balanced and covers all the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education effectively.

Parc y Bont is a happy school in which pupils feel safe. Learning experiences promote pupils' personal development successfully, including their spiritual, moral, social and cultural development.

The school is an inclusive community that provides a safe and welcoming environment for all pupils. It has a caring ethos and staff promote very positive attitudes. This has a positive effect on pupils in terms of their enthusiasm for their work and their social confidence. Appropriate policies and procedures ensure equal access to provision and promote social equality and diversity effectively. Respect for racial diversity and equality is promoted successfully through personal and social education programmes and through promoting values.

Ysgol Uwchradd Bodedern.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ymdrin yn effeithiol â'r gofynion statudol gan gynnig profiadau eang, cytbwys a pherthnasol i'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol yn dda iawn. Mae'r ysgol yn annog disgyblion yn gyson i werthfawrogi'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill. Maent yn codi ymwybyddiaeth ac yn dathlu llwyddiannau'n effeithiol drwy'r gwasanaethau boreol, cyhoeddiadau dyddiol a'r hysbysfyrddau.

Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn gymuned hapus ag iddi ethos cynhwysol a theuluol. Anogir y disgyblion hŷn i gymryd cyfrifoldeb o fewn gymuned yr ysgol a chydweithio'n effeithiol gyda staff i hybu'r ethos hwn.

The school curriculum addresses statutory requirements effectively and provides wide, balanced and relevant experiences to pupils

Provision to promote moral, spiritual, cultural and social development is very good. The school encourages pupils regularly to appreciate the arts, sports and other cultural activities. They raise awareness and celebrate successes effectively through morning assemblies, daily announcements and noticeboards.

Ysgol Uwchradd Bodedern is a happy community with an inclusive and familial ethos. Older pupils are encouraged to take responsibility with the school community and cooperate effectively with staff to promote this ethos.

This page is intentionally left blank

Hunan Arfarniad Addysg Grefyddol Ysgol Llangoed.

Ysgol Llangoed 2015.

Hunan arfarniad Addysg Grefyddol

Cwestiwn 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

Seilir yr hunan adolygiad hwn ar sesiynnau craffu ar lyfrau, trafodaeth ag athrawon a thrafod gyda digybllion.

Y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r disgyblion yn hyderus iawn wrth drafod eu teimladau ac yn medru rhesymu sut mae gweithredoedd eraill yn gallu effeithio ar deimladau unigolion.

Gall y rhan fwyaf ddeall beth yw prif negeseuon o fewn storïau crefyddol. Gyda ychydig yn medru esbonio effaith y negeseuon/gwers ar unigolion.

Mae tua hanner y disgyblion yn medru adnabod symbolau crefyddol amlwg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol mae llawer yn medru adnabod crefyddau eraill yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen wrth chwarae rol, maent yn medru efelychu swyddi neu gyflawniad pobl crefyddol yn hyderus.

Wrth ymdrin a gwyl crefyddol mae'r bron bob un yn medru uniaethu ac ymuno yn y dathliadau

Cyfnod Allweddol 2

Mae y rhan fwyaf o'r plant yn medru galw i gof storïau crefyddol ac y mwyafrif yn medru mynegi barn am negeseuon y storïau drwy weithgareddau ffurfiol papur a phensil neu waith drama

Gall y mwyafrif o ddisgyblion disgrifio a dechrau esbonio'r credoau ac arferion crefyddol eraill.

Wrth ddefnyddio termau crefyddol mae llawer ohonynt yn llwyddiannus wrth sgwrsio o fewn y cyd destun. Maent yn medru cymharu nodweddion crefyddau a'u cymharu.

Mae plant ar draws y cyfnod yn hyderus wrth archwyllo ffynhonnellau crefyddol ac mae llawer yn medru ystyried y materion sy'n codi, dim ond ychydig o blant sydd yn gallu ategu dadleuon a barnau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol mae y rhan fwyaf yn medru nodi'r nodweddion sy'n debyg neu yn wahanol o fewn crefyddau.

Gydag annogaeth mae'r disgyblion yn defnyddio iaith grefyddol yn addas.

Mae bron bob un yn medru gofyn cwestiynau am eu profiadau ei hunain a'r byd sydd o'u cwmpas ac yn medru trafod cwestiynau sydd yn codi o'u profiadau. Gall ychydig o ddisgyblion ar frig y cyfnod allweddol ofyn cwestiynau dwys a chymleth.

Mewn trafodaeth i ddarganfod barn plant am wersi addysg grefyddol roedd y rhan fwyaf yn mwynhau'r gwersi a'r sesiynnau creadigol a'r sesiynau gan y Bible Explorers yn rhagori.

Mae safonau a welwyd wrth edrych ar waith plant yn dangos fod y safon yn dda ar draws yr ysgol.

Materion sydd angen sylw:

Cyfnod Sylfaen:

- Rhoi mwy o gyfleoedd I blant drafod – cwestiynu effeithiol wrth weithio ar dasg ffocws.
- Edrych yn fanylach I storïau/ credoau.

CA2:

- Cyfleoedd i esbonio a chyfiawnhau syniadau yn fwy trylwyr wrth gwblhau gweithgareddau.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i sut mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn effeithio ei safbwyntiau. (Mynegi barn)

Cwestiwn 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

Cyfnod Sylfaen

Mae'r atharwon yn defnyddio Fframwaith y Cyfnod sylfaen i gynllunio gweithgareddau o dan y pennawdau Pobl credoau a chwestiynau gan edrych ar y sgiliau sydd yn amlygu eu hunain o dan y pennawdau Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad personol a Chymdeithasol lles ac Amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae'r atharwon yn cynllunio yn ofalus ac mae datblygiad amlwg o un dosbarth i'r llall. Mae cynlluniau yn rhoi ystyriaeth i weithgareddau trawsgwricwlaidd sydd yn gwneud defnydd o wahanol ardaloedd o fewn y cyfnod sylfaen e.e byd bach Nadolig, chwarae rol yn Arch Noa.

Mae arddangosfeydd crefyddol eu naws ar furiau'r adran.

Gnweir defnydd da iawn o storïau, llyfrau, offer TGCh.

CA2

Mae gwybodaeth gefndirol yr athrawon yn dda, mae un athrawes gyda gradd mewn addysg grefyddol.

Addysgir Addysg grefyddol yn wythnosol o fewn yn dosbarthiadau.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb i ofynion maes llafur a'r cwricwlwm addysg grefyddol.

Mae addysg grefyddol wedi ei fapio mewn cylch dwy flynedd i bob dosbarth ac yn dangos dilyniant a datblygiad o un dosbarth i'r llall gan roi ystyriaeth i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r fframwaith sgiliau.

Mae pob uned o waith yn dechrau gyda cwestiwn mawr i'w ymchwilio er mwyn datblygu sgiliau ymholi'r disgyblion.

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion weithio yn drawsgwricwlaidd gydag addysg grefyddol yn cael lle amlwg o fewn gwersi drama, celf a iaith o fewn yr adran.

Mae'r plant yn ymweld ag addoldai er mwyn cyfoethogi'r gwaith o fewn y dosbarth.

Mae'r adran yn cyfoethog o ran llyfrynu cyfeirio, arteffactau, gwerau lyfrau ac adnoddau TGCh a gwneir defnydd da ohonynt ar lawr y dosbarth.

Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn dda.

Materion sydd angen sylw:

Cyfnod Sylfaen:

- Parhau i gynnis ystod eang o brofiadau amrywiol a diddorol i'r plant.
- Sicrhau fod cynlluniau gwaith yn herio dealltwriaeth a rhoi cyfleoedd i esbonio

CA2:

- Sicrhau fod addysg grefyddol yn cael ei addysgu yn unol ag amserlen dosbarth.
- Cyfleoedd i ddatblygu'r ochr meddwl am effaith a chanlyniadau o fewn cynlluniau gwaith.

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? Ydy.

Ystyrir addoli ar y cyd yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol, yn blentyn ganolog, yn cydnabod natur gwahaniaethol plant ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned yn yr ysgol.

Cynllunir addoli ar y cyd yn ofalus, fel arfer dros gyfnod o wythnosau neu dymor er mwyn datblygu themau a syniadau neu ddigwyddiadau a dyddiadau arbennig. Dengys y cynlluniau amrywiaeth a chydbwysedd addoli. Gwneir defnydd effeithiol o symbyliad priodol ac addas, yn cynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, cyflwyniadau 'PowerPoint' a chlipiau fideo gogyfer ag ennyn diddordeb a chyfraniad y plant.

Mae ein haddoliad ar y cyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion addoli Duw, ystyried materion ysbrydol a moesol mewn modd sensitif a gofalus ac yn rhoi cyfle i'r plant ymlonyddu a myfyrio mewn awyrgylch dawel yn ogystal ag ystyried eu credoau eu hunain. Rydym yn annog y plant i gymryd rhan ac i ymateb boed hynny drwy gymryd rhan flaenllaw yn yr addoliad neu drwy wrando, gwyllo ac ymuno yn y canu. Ceisiwn yn ein haddoliad feithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos addas gan atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.

Mae sawl agwedd i'n haddoliad:

Myfyrio – Annogir y plant i wrando neu fyfyrir ar ysgogiad priodol megis darlenniad o'r Beibl neu ddarn o farddoniaeth, llun, stori, cwestiwn, erthygl newyddion, fideo neu weddi.

Gweddi – Annogir y plant i weddio'n uchel gyda'i gilydd neu yn unigol yn dawel.

Canu – Annogir y plant i ymuno yn y mawl drwy ganu amrywiaeth o ganeuon addas a phriodol i'r addoliad.

Darlenniad / stori – Rhoddir cyfle i'r plant ddarllen darnau o'r Beibl neu lenyddiaeth neu i gyflwyno rhyw waith dramatig neu stori.

Ysgol Santes Gwenfaen Rhoscolyn

Addysg Grefyddol Ionawr 2015

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol

Y Cam Sylfaen

Mae disgyblion Meithrin a Derbyn yn ymrwymo mewn trafodaeth, yn rhoi llais i hanesion personol ac yn dwyn i gof storïau o sesiynau addoli dosbarth ac ar y cyd. Maent yn profi addysg grefyddol drwy ystod o brofiadau synhwyrol, clywedol a gweledol.

Mae disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn trafod ac yn gofyn cwestiynau. Bron yn ddieithriad, maent yn cynnig barn, yn dwyn i gof brofiadau personol ac yn dechrau dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ffydd pobl eraill a ffyrdd o addoli. Mae disgyblion y CS Uwch yn dechrau defnyddio geirfa grefyddol gyffredin i ddisgrifio themâu cyffredin o fewn crefyddau (llyfrau sanctaidd, manau addoli, gwyliau). Mae lleiafrif o ddisgyblion yn priodoli ystyr arbennig i symbolau crefyddol.

Cyfnod Allweddol 2

Mae bron yr holl ddisgyblion ym mlynnyddoedd 3 a 4 yn gallu adnabod cyffelybiaethau a gwahaniaethau arferion crefyddol o fewn y crefyddau y maent wedi eu hastudio. Gall mwyafrif y disgyblion adnabod pwysigrwydd gwrthrychau addoli a meysydd arbennig addoli o fewn lleoedd addoli Cristnogol. Mae'r holl ddisgyblion bron yn defnyddio geirfa briodol wrth drafod addoli. Gall lleiafrif bychan o ddisgyblion roi llais i hoffterau personol wrth drafod ffydd a Christnogaeth.

Gall bron i holl ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 roi llais i'w hymwybyddiaeth ddatblygiadol o arferion a chredoau crefyddol, yn defnyddio geirfa briodol. Gall mwyafrif fynegi barn i ddilysu, cyfiawnhau neu esbonio arferion crefyddol personol a dangos parch tuag at arferion crefyddau eraill. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos aeddfedrwydd cynyddol mewn trafod a chwestiynu arferion Cristnogion a chredoau eraill. Mae'r lleiafswm hwn o ddisgyblion yn dangos eu bod yn dechrau deall cymhlethdod materion sy'n ymwneud â chredoau ac arferion crefyddol.

Mae disgyblion yn tystiolaethu eu cynnydd mewn dysgu drwy weithgareddau trawsgwricwlaidd; celf a chrefft, ffotograffiaeth, llyfrau disgyblion, cydaddoli a digwyddiadau crefyddol cymunedol, barddoniaeth, drama, cerddoriaeth. Mae monitro gwaith disgyblion a chynnydd mewn dysgu yn dangos bod safonau'n dda o fewn y grwpiau blwyddyn i gyd.

Ardaloedd ar gyfer eu datblygu:

CS: *Sicrhau y cynhwysir tystiolaeth o gynnydd ym mhortffolios y CS.

CA2: * Yn gyffelyb, casglu tystiolaeth o gynnydd disgyblion ar gyfer arfarniad staff/disgyblion .

*Monitro cynnydd disgyblion yn dilyn trosolwg AG ysgol wedi ei hailfodelu, tymor yr haf 2016. Rhoi adroddiad i'r Llywodraethwyr.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

Y CAM SYLFAEN

*Mae athrawon yn gyfarwydd â'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Adnabyddir sgiliau'n cynnwys pobl, credoau a chwestiynau drwy Wybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Meysydd Lles ac Amryfaliaeth Ddiwylliannol Datblygiad Personol a Chymdeithasol gweithgareddau.

*Ar draws y Cam Sylfaen, mae gweithgareddau cynlluniedig cyfoethog ac amrywiol yn darparu meysydd oed-briodol i ddisgyblion ar gyfer gwybodaeth, trafodaeth a chwestiynu.

*Mae'r cydlynnydd AG, gyda chefnogaeth gan Ficer yr Ardal Weinidogaethol, a thrafodaeth gyda staff, wedi ailymweld â chynllunio AG ysgol-gyfan a chynhyrchu trosolwg o ddilyniant sgiliau, gwybodaeth a gweithgareddau disgyblion, Ionawr 2015.

Mae disgyblion cam *F yn profi AG o gyd-destunau crefyddol, llyfrau storïau, TGaCh, crefftau a drama, pypedau ac ymwelwyr ysgol rheolaidd.

Mae'r ansawdd a'r ddarpariaeth ar gyfer AG yn y cam Sylfaen yn dda.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

*Mae'r Pennaeth (warden eglwysig) yn addysgu AG yn ystod sesiynau prynhawn CPA sy'n awr yn ôl yr wythnos y dosbarth ar gyfartaledd (blynyddoedd 3/4 a 5/6).

*Mae ailgynllunio AG Ionawr 2015 yn sicrhau dilyniant mewn sgiliau a gwybodaeth ar draws y Cyfnod Allweddol. Hefyd, mae ystod y gweithgareddau, yr ymwelwyr a'r gweithgareddau wedi eu cynllunio i addysgu, symbylu ac ysgogi disgyblion i ystyried, gwerthfawrogi a chwestiynu credoau ac arferion crefyddol.

*Yn dilyn o'r Cam Sylfaen, mae ystod o brofiadau ac adnoddau'n sicrhau dilyniant drwy gydol y Cyfnod Allweddol; ymweliadau i fannau addoli lleol, pererindodau i ffynhonnau sanctaidd, cyfranogiad mewn digwyddiadau/gwyliau crefyddol cymunedol, ymweliadau rheolaidd gan arweinwyr a sefydliadau crefyddol, cyfranogiad ysgolion ardal mewn digwyddiadau crefyddol, cyfeirlyfrau, testunau crefyddol, TGaCh, gwaith disgyblion trawsgwricwlaidd /cyfathrebu eu profiadau.

Mae'r ansawdd a'r ddarpariaeth ar gyfer AG yn CA2 yn dda.

Meysydd i'w datblygu:

- ⑩ Rhannu'r arfer dda yn barhaus mewn addysgu AG (ysgolion ardal)
- ⑩ CPD ar gyfer staff o fewn yr ysgol; rhannu adnoddau/arferion da/mewn perthynas â chynllunio i sicrhau parhad gwelliannau mewn darpariaeth AG
- ⑩ AfL a adnabuwyd mewn AG
- ⑩ Portffolio AG

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Cydaddoli?

Nodweddion da mewn perthynas â Chydaddoli:

- Darperir cydaddoli sy'n dilyn traddodiad cyffredinol y grefydd Gristnogol yn ddyddiol yn ôl dosbarth /Cyfnod Allweddol neu'n bennaf; lefel ysgol-gyfan

- Arweiniodd Ailgynllunio Cydaddoli (Ionawr 2015) mewn cynhyrchu trosolwg ysgol- gyfan o ddarpariaeth cydaddoli yn seiliedig yn bennaf ar; y calendr Cristnogol, themâu cymunedol lleol a byd-eang , moesau, credoau, ethos a gwerthoedd. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Dinasyddiaeth fyd-eang, a'r Cwricwlwm Cymreig.
- Yn ystod cydaddoli caiff disgyblion y cyfle (i gyflawni un neu fwy agwedd ar yr hyn a ganlyn) gwrando, gwylio, myfyrio, adlewyrchu, cymryd rhan (drama/cwestiynau /ymatebion), canu, gweddïo.
- Adnabyddir addoli ysgol-gyfan gan staff a disgyblion i fod yn amser arwyddocaol o'r diwrnod pan fo disgyblion yn profi awyrgylch sy'n wahanol i wersi/gweithgareddau ysgol.
- Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr rheolaidd o eglwysi/capeli lleol sy'n arwain/cymryd rhan mewn cydaddoli.
- Mae'r ysgol yn bod yn arweiniol gyda threfnu cydaddoli mewn lleoedd o bererindod lleol

Mae'r ysgol yn ystyried bod cydaddoli'n dda gydag agweddau ardderchog.

Meysydd ar gyfer eu Datblygu:

- Parhau i rannu'r arfer dda gydag ysgolion eraill.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o drosolwg yr ysgol o Gydaddoli ac yn rhannu cyfrifoldebau ac yn derbyn adnoddau/newyddion cydaddoli .
- Parhau i wella agweddau ar fyfyrion ac adlewyrchu yn ystod cydaddoli

Hydref 2014 (drafft)**2.3.1 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd****Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

Blwyddyn	Ysgolion M+G+C*	Disgyblion		%L5+		%L6+		%L7+	
		Ynys Môn	M+G+C	Ynys Môn	M+G+C	Ynys Môn	M+G+C	Ynys Môn	M+G+C
2014	5(5)+11(14)+0(0)	611	1,659	87.7	91.7	44.4	55.3	17.2	19.6
2013	5(5)+5(14)+1(7)	675	1,242	86.4	88.7	68.5	52.3	13.8	18.2
2012°	5(5)+13(14)+4(7)	657	2,577	74.0	82.7	51.4	43.2	6.8	12.5
2011	3(5)+11(14)+2(7)	378	1,773	76.7		40.9		10.1	

* Erbyn diwedd tymor yr Haf 2014 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 11 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Nid oedd ysgolion Conwy wedi cyflwyno data perfformiad. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwniaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgolion arbennig (Yr Hafan ac Ysgol y Bont) wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 611 o ddisgyblion CA3 yn ystod tymor yr Haf 2014.
- Cyflawnodd 87.7% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol sy'n gynydd o 1.3% ers 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 81.6% i 94.2%;
- Cyflawnodd 44.4% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol sy'n 24.1% yn llai nag yn 2013. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 35% i 51.8%.
- Cyflawnodd 17.2% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynydd o 2.4% ers 2012. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 10.6% i 26.2%.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 2 ysgol.
- Roedd disgyblion yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol mewn dwy ysgol.

Gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn Prydiau Ysgol am Ddim (PYD) a disgyblion sydd ddim yn derbyn Prydiau Ysgol am Ddim (dim PYD)

Lefel 5+

Mae 13.8% llai o ddisgyblion PYD yn cyflawni gofynion L5+ na'u cyfoedion dim PYD. Roedd yr amrediad yn amrywio rhwng 10.1% mewn un ysgol a 19.5% mewn ysgol lle roedd y bwlch ar ei fwyaf.

Lefel 6+

Mae 16.7% llai o ddisgyblion PYD yn cyflawni gofynion L6+ na'u cyfoedion dim PYD. Roedd yr amrediad yn amrywio rhwng 14.1% mewn un ysgol a 34.6% mewn ysgol lle roedd y bwlch ar ei fwyaf.

Lefel 7+

Mae 13.4% llai o ddisgyblion PYD yn cyflawni gofynion L7+ na'u cyfoedion dim PYD. Roedd yr amrediad yn amrywio rhwng 8.8% mewn un ysgol a 19.3% mewn ysgol lle roedd y bwlch ar ei fwyaf.

Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

Ysgolion Uwchradd Ynys Môn	Nifer o ysgolion	Nifer yn sefyll			% Rhagoriaeth			% L2			% L1			Sgôr cyfartalog y pwnc		
		B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ
2014	5	27	110	137	40.7	55.5	52.6	81.5	87.3	86.1	100	100	100	44	48	47
2013	5	32	108	140	28.1	46.3	42.1	81.3	82.4	82.1	100	100	100	44	46	46
2012	4	46	110	156	43.5	65.5	59.0	76.1	94.5	89.1	100	100	100	44	50	49
2011	5	46	100	146	21.7	58.0	46.6	67.4	92.0	84.2	100	100	100	41	49	47

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgyngorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

Mai 2015

Canlyniadau Haf 2014	Nifer yn sefyll	% Rhagoriaeth	%L2	%L1
Ynys Môn	137	52.6	86.1	100
Cymru				

Canlyniadau Cwrs Llawn Haf 2013	Nifer yn sefyll	% Rhagoriaeth	%L2	%L1
Ynys Môn	140	42.1	82.1	100
Cymru	11,414	33	51	93

	Nifer o ysgolion	Nifer yn sefyll			% Rhagoriaeth			% L2			% L1			Sgôr cyfartalog y pwnc		
		B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ
2014	5	27	110	137	40.7	55.5	52.6	81.5	87.3	86.1	100	100	100	44	48	47

Canlyniadau da

- 137 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn. Sgor cyfartalog y pwnc yw 47 sy'n gynydd o un pwynt ers llynedd.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 51 mewn ysgol arall.
- 52.6% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi gwella'n arwyddocaol ers 2013 (+10.5%).
- 86.1% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n gynydd (+4%) o gylfawniadau 2013. Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 27 : G 110).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgor cyfartalog y merched yn 48 mewn cymhariaeth a sgor cyfartalog y bechgyn o 44, y bwllch yn +2 yn fwy na llynedd. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Mae canlyniadau L2+ eleni yn awgrymu bod y bwllch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cynyddu ychydig eleni (+4.7) ond yn parhau yn is na'r hyn welwyd yn 2012 a 2011.. Mae'r bwllch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 14.8 sy'n llai na'r bwllch yn 2013 (18.1%). Dyma'r pedwreidd blwyddyn o'r bron i'r bwllch leihau ers 2011 pan oedd y bwllch yn 36.3%.

Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

Ysgolion Uwchradd	Nifer o ysgolion	Nifer yn sefyll	% Rhagoriaeth	% L2	% L1	Sgôr cyfartalog y pwnc
-------------------	------------------	-----------------	---------------	------	------	------------------------

Ynys Môn		B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ	B	G	Σ
2014	1	6	28	34	50.0	71.4	67.6	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	23	26	25
2013	2	11	32	43				72.7	84.4	81.4	100	100	100	21	25	24
2012	3	4	3	7				50.0	66.7	57.1	100	100	100	19	21	20
2011	2	32	37	69	0.0	0.0	0.0	65.6	86.5	76.8	100	100	100	20	24	22

Mai 2015

Canlyniadau Haf 2014	Nifer yn sefyll	% Rhagoriaeth	%L2	%L1
Ynys Môn	34	67.6	86.1	100
Cymru				

Mai 2014

Canlyniadau Haf 2013	Nifer yn sefyll	% Rhagoriaeth (A*)	%L2	%L1
Ynys Môn	43		81.4	100
Cymru	12,765	18	51	93

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.



Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas 2013 – 2014

1. Cyfarfu'r Gymdeithas ar dri achlysur: 19 Mehefin 2013 yng Nghaernarfon, 10 Hydref 2013 yn Rhondda Cynon Taf, a 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili. Rydym yn ddiolchgar i'r CYSAGau lletyol am eu lletygarwch hael.

2. Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith ar dri achlysur: 4 Hydref 2013 yn Nantgarw, 4 Chwefror 2014 yng Nghaerdydd, a 14 Mai 2014 yng Nghaerdydd.

Roedd gan y Pwyllgor Gwaith agenda lawn drwy gydol y flwyddyn, ac roedd yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- (a) paratoi a threfnu cynhadledd genedlaethol CCYSAGauC, *Ategu Blaenoriaethau Cenedlaethol yng Nghymru drwy Addysg Grefyddol* ar gyfer 10 Hydref 2013;
- (b) trafod strategaethau ar gyfer digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol a gynigir drwy CCYSAGauC;
- (c) derbyn a thrafod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, *Adolygiad o Adroddiadau CYSAGau (2008-2011)* a'i ddosbarthu i'r CYSAGau;
- (d) cefnogi a hysbysebu datblygiad parhaus Marc Ansawdd AG Cymru;
- (e) derbyn, trafod a dosbarthu Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol;
- (f) trafod a chefnogi'r ddarpariaeth ar wefan CCYSAGauC o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â deunydd ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid ar AG yn Nghymru;
- (g) derbyn gwybodaeth am erthygl ymchwil yn seiliedig ar *CYSAGau a'r Gymuned Leol: adroddiad arolwg CCYSAGauC o'r CYSAGau yn Nghymru* a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn *Contemporary Wales* (2014);
- (h) gweithio i ailsefydlu pwynt cyswllt yn Llywodraeth Cymru ar gyfer CCYSAGauC;
- (i) ymateb i Adolygiad Cwricwlwm Llywodraeth Cymru, cam 1 (Ionawr 2014);
- (j) cyfarfod â'r Athro Donaldson yng Nghaerdydd i gyfrannu at ei 'Gais am Dystiolaeth' yng nghyswllt yr Adolygiad Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol (Mehefin 2014);
- (k) trefnu a hwyluso Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor AG Cymru a Lloegr yng Nghaerdydd ym mis Mai 2014, gan gynnwys presenoldeb Gweinidog Addysg Cymru, Huw Lewis;

- (l) trafod ac ymateb i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyswllt aelodaeth o'r CYSAGau ac Addysg Grefyddol;
- (m) cynrychioli CCYSAGauC ar bwyllgorau ac mewn digwyddiadau a oedd yn berthnasol i waith y Gymdeithas, er enghraifft Cyngor AG Cymru a Lloegr, PYCAG, Y Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol (EFTRE), Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd (Cymru).

6. Cyfrifon. Adroddiad y Trysorydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14. Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwariant £1,469.31 yn uwch na'r incwm (fodd bynnag, roedd tri thanysgrifiad yn dal heb ddod i law, sydd felly'n lleihau'r gorwariant i £245.31). Roedd y gwariant yn uwch eleni oherwydd yr hyfforddiant CA3 a gynigiwyd drwy CCYSAGauC. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y balans yn £18,812.88 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y balans yn £17,343.57. Felly, mae sefyllfa ariannol CCYSAGauC yn dal i fod yn iach, a bydd hyn o gymorth i CCYSAGauC er mwyn ariannu ei gweithgareddau arfaethedig. Cymerodd a derbyniodd yr aelodau y datganiad o gyfrifon.

Derbyniodd yr aelodau argymhelliad y Trysorydd y dylai pris y tanysgrifiad blynyddol i bob CYSAG ymaelodi â CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 fod yn £417, sef cynnydd o 2.08% ar danysgrifiad 2011/12.

7. Aelodau newydd o'r Pwyllgor Gwaith. Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol haf 2013, cadarnhawyd y byddai'r Is-Gadeirydd, Tania ap Sion, yn ymgymryd â swydd Cadeirydd y Gymdeithas ac y byddai Gavin Craigen yn ymgymryd â swydd Is-Gadeirydd y Gymdeithas. Etholwyd dau aelod i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod 2013-2016: Mark Brown (Conwy) a Mary Parry (Sir Gaerfyrddin). Cododd trydydd swydd ar y Pwyllgor Gwaith ac fe'i llenwyd gan Michael Gray ar gyfer 2013-14. Derbyniodd y Pwyllgor ymddiswyddiad Brian Rogers (Rhondda Cynon Taf) a Mark Brown (Conwy).

8. Cyflwyniadau PYCAG a CCYSAGauC. Cafodd y Gymdeithas gyflwyniadau diddorol a gwerthfawr gan:

- Phil Lord – Marc Ansawdd AG Cymru
- Mary Parry – Adolygiad Thematig Estyn
- Michael Strange – Adnodd ar-lein *RE Quest*
- Libby Jones a Gill Vaisey – Cynhadledd CCYSAGauC
- Tudor Thomas – Datblygiadau CBAC

Cafwyd llai o gyflwyniadau eleni gan fod cyfarfod y Gymdeithas yn yr hydref wedi cael ei gynnal yn syth ar ôl cynhadledd CCYSAGauC ym mis Hydref 2013 ac nid oedd yn cynnwys y cyflwyniadau arferol.

CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL – 2 Gorffennaf, 2014

ADRODDIAD GAN: Y Trysorydd

PWNC: Adroddiad ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013/2014

PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi Gwybodaeth a Chael Penderfyniad

DATGANIAD O GYFRIFON 2013/2014

Wedi'i atodi wrth yr adroddiad hwn mae Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014. Fel y sylwa'r Aelodau, roedd y gwariant £2831.80 yn uwch na'r incwm yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd tri thanysgrifiad heb eu talu, a phetaent wedi cael eu talu erbyn hynny, byddai'r gorwariant £1251.00 yn llai, gan adael gorwariant o £1580.80 am y flwyddyn. Dyma'r ail flwyddyn lle'r oedd y gwariant yn uwch na'r incwm, ar ôl tair blynedd cyn hynny lle bu tanwariant sylweddol. Cyn y llynedd, y tro diwethaf y cafwyd gorwariant sylweddol am y flwyddyn oedd 2008/2009 ac fel y cofia'r aelodau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, CCYSAGauC a dalodd fwyafrif costau'r Gynhadledd Ôl-16 Genedlaethol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y balans yn £17343.57, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd y balans yn £14511.77. Felly, mae sefyllfa ariannol CCYSAGauC yn dal yn iach, er bod y balans £2831.80 yn llai nag oedd ar ddiwedd 2012/2013. Mae CCYSAGauC, felly, mewn sefyllfa gref i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig.

a) **Derbyniadau**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2013/14 oedd y tanysgrifiadau blynyddol a delir gan y CYSAGau sy'n aelodau. Fel y cofia'r aelodau, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn 2001 penderfynwyd codi lefel y tanysgrifiadau yn unol â lefel chwyddiant bob blwyddyn. Felly, roedd y tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2013/2014 yn £417, ac mae hyn wedi arwain at incwm o £7923. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys tanysgrifiadau 19 CYSAG gan fod 3 CYSAG heb dalu eu tanysgrifiadau erbyn 31 Mawrth, 2014. Braf yw nodi bod y tanysgrifiadau hynny bellach wedi'u talu, a bydd y taliadau hwyr yn cael eu cofnodi yng nghyfrifon 2014/2015. Fel y sylwa'r aelodau, yn ogystal â thanysgrifiadau blynyddol 2013/2014, cafodd tri thanysgrifiad ar gyfer 2012/2013, am £408 yr un, eu cynnwys yn y cyfrifon hyn hefyd am eu bod wedi cael eu talu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, yn hytrach nag yn ystod 2012/2013.

Ffynhonnell incwm arall ar gyfer CCYSAGauC yn ystod y flwyddyn oedd llog banc, ac roedd hwn yn £3.87 yn 2013/2014, sy'n gynydd o 7 ceiniog ar y swm a gafwyd yn 2012/2013. Gobeithir y bydd y llog a delir ar gyfrifon CCYSAGauC yn gwella eto yn y dyfodol ond ni cheir incwm sylweddol drwy log banc am beth amser eto.

b) **Gwariant**

Yn ystod 2013/2014, roedd y prif feysydd gwariant fel a ganlyn:-

Roedd y gwariant mwyaf sylweddol yn ystod 2013/2014 yn gysylltiedig â Chynhadledd CCYSAGauC a gynhaliwyd yn ystod hydref 2013, ac roedd y cyfanswm a wariwyd ar y Gynhadledd yn £4019.04. Fel y cofia'r aelodau, roedd hwn yn ddigwyddiad a gafodd ei werthfawrogi gan bawb a oedd yn bresennol. Roedd y cyflwyniadau a'r gweithdai yn rhai o safon uchel iawn ac mae'r Gynhadledd wedi bod yn bwysig o ran codi proffil CCYSAGauC yng Nghymru. Dyma enghraifft bwysig o'r rhan y gall CCYSAGauC ei chwarae i gefnogi Addysg Grefyddol.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd £600.00 tuag at gynnal gwefan CCYSAGauC. Bydd yr aelodau'n cytuno bod gwefan CCYSAGauC yn adnodd gwych a'i bod yn werthfawr o ran codi proffil y gymdeithas ac fel ffynhonnell sy'n darparu gwybodaeth am Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Talwyd cydnabyddiaeth o £1500 i'r Ysgrifennydd. Fel y cofia'r aelodau, mae gan yr ysgrifennydd hawl i gael cydnabyddiaeth o £1500 y flwyddyn a gwnaethpwyd y taliad hwn unwaith eto yn 2013/2014. Dim ond swm bach a hawliwyd yn ystod y flwyddyn am gostau ysgrifenyddol (£3.70) felly mae'n bosib y caiff swm mwy sylweddol ei hawlio yn ystod 2014/2015. Fodd bynnag, mae dosbarthu papurau'n electronig ar gyfer cyfarfodydd a rhoi papurau a dogfennau ar y wefan wedi gostwng costau.

Roedd gwariant arall yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chostau cynull cyfarfodydd CCYSAGauC. Roedd hwn yn gyfanswm o £1874.69, o'i gymharu â £1585.73 yn 2012/2013, £517.53 yn 2011/2012 a £871.73 yn 2010/2011, ac mae'n adlewyrchu cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC a'i Phwyllgor Gwaith. Er bod costau cynnal cyfarfodydd yn cynyddu, mae'r costau'n arbennig o uchel eleni am eu bod yn cynnwys costau teithio cyflwynwyr a chostau athrawon cyflenwi i ryddhau cyflwynwyr o ysgolion, yn ogystal â chost gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn un o'r cyfarfodydd tymhorol. Roedd cost llogi ystafelloedd yn £43.00, o'i gymharu â £168.37 yn 2012/2013, tra bo cost cyfieithu dogfennau yn £912.91, o'i gymharu â £1417.36 yn 2012/2013.

Gwariwyd £2764.70 ar gostau teithio/llety'r Swyddogion yn 2013/2014 o'i gymharu â £675.35 yn 2012/13. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o deithio wedi digwydd. Er enghraifft, mae'n cynnwys anfon cynrychiolydd o CCYSAGauC i Gyfarfod Bwrdd y Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol yn Fienna.

Yn ystod 2013/2014, mae CCYSAGauC wedi parhau i gyfrannu at gostau cyhoeddi AGweddau yn Newyddion AG a chylchredeg copïau unigol o AGweddau i'w cynnwys yn y ffeiliau gan CCYSAGauC a roddir i bob CYSAG. Fodd bynnag, gan fod y wefan bellach wedi disodli Newyddion AG, a chylchrediad AGweddau wedi dod i ben, ni ddisgwylir y bydd angen y cyfraniad hwn yn ystod 2014/2015.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, talodd CCYSAGauC am gyfieithu dogfennau'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol i'r Gymraeg er mwyn iddynt fod ar gael i bob ysgol yng Nghymru, a chost y gwaith cyfieithu hwn oedd £515.82. Mae hyn yn golygu bod cymorth pendant pellach ar gael i ddarparu Addysg Grefyddol yng Nghymru.

Yn ogystal â'r uchod, mae CCYSAGauC wedi talu cyfanswm o £184.00 mewn tanysgrifiadau. Mae hyn yn cynnwys talu tanysgrifiad i'r Cyngor AG ar gyfer 2012/2013 a 2013/2014. Gwnaethpwyd dau daliad yn yr un flwyddyn ariannol gan fod y ddwy anfoneb wedi dod i law yn ystod yr un flwyddyn. Ni chafwyd anfonebau yn ystod blwyddyn ariannol 2013/2014 am danysgrifiadau i'r Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol na'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd, a rhagwelir y byddant yn dod i law yn ystod 2014/2015.

Gwahoddir aelodau i gymryd a derbyn y datganiad o gyfrifon sydd ynghlwm.

TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2014/2015

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol gan bob CYSAG ar gyfer aelodaeth o CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2014/2015, bydd yr aelodau'n cofio'r penderfyniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn 2001 y byddai'r tanysgrifiad i CCYSAGauC yn cynyddu'n unol â chwyddiant yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod CCYSAGauC yn dilyn yr arfer hwn er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i dalu costau parhaus gweithgareddau CCYSAGauC, gan gynnwys treuliau cyfarfodydd, costau ysgrifenyddol, treuliau swyddogion, cydnabyddiaeth swyddogion a thanysgrifiadau. Hefyd, mae ar CCYSAGauC angen digon o adnoddau i dalu costau mwy o ddigwyddiadau Cymru Gyfan, fel y Gynhadledd Genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2013, ac i'w galluogi i gymryd rhan mewn mentrau eraill i gefnogi Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd ledled Cymru, er enghraifft darparu rhagor o hyfforddiant. Er bod sefyllfa ariannol CCYSAGauC yn iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig cynnal balans sylweddol er mwyn i CCYSAGauC allu mynd ati'n hyderus i drefnu rhagor o ddigwyddiadau cenedlaethol.

Yn ngoleuni'r uchod a'r penderfyniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2001 y byddai pris tanysgrifiad i CCYSAGauC yn cynyddu'n unol â chwyddiant yn y dyfodol,

ARGYMHELLIR y dylai pris y tanysgrifiad gan bob CYSAG ar gyfer aelodaeth o CYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2014/2015 fod yn £422, sy'n gynydd o 1% ar bris tanysgrifiad 2013/2014.

TALU TREULIAU

Fel y cofia'r aelodau, cytunwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn 2013 y byddai'r trefniadau ar gyfer talu treuliau yn 2013/2014 fel a ganlyn:-

- I. Taliad o 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n cyflawni busnes ar ran CCYSAGauC lle na allant hawlio gan eu CYSAGau lleol ac ad-daliad ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;
- II. ad-dalu costau parcio gwirioneddol i swyddogion, os achosir y costau hynny gan fusnes CCYSAGauC;
- III. lle defnyddir cludiant cyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu pris gwirioneddol tocyn trên/bws hyd at lefel y pris safonol ar y ddealltwriaeth ei bod yn rhaid manteisio ar gyfleoedd i arbed costau lle bynnag y bo modd;
- IV. ad-dalu costau cynhaliaeth a gafwyd gan swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr yng nghyfarfodydd CCYSAGauC ar y lefelau canlynol:-
 - brecwast - £4.50 (i fod yn gymwys am lwfans brecwast, rhaid i swyddog fod wedi gadael ei gartref cyn 7.00am);
 - cinio - £6.00 (i fod yn gymwys am lwfans cinio, rhaid i swyddog fod oddi cartref cyn hanner dydd ac ar ôl 2.00pm);
 - te - £2.50 (i fod yn gymwys am lwfans te, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 6.30pm);
 - pryd gyda'r nos - £7.50 (i fod yn gymwys am lwfans pryd gyda'r nos, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 8.30pm);
- V. ad-dalu costau gwirioneddol llety dros nos ar y ddealltwriaeth bod y costau'n rhesymol; ac
- VI yng nghyswllt rhyddhau athrawon o ysgolion i gyflwyno yng nghyfarfodydd CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn ariannu athro/athrawes cyflenwi am hyd at un diwrnod llawn. Os na fydd hyn yn ddigonol, rhaid rhoi gwybod i'r Trysorydd yn gynnar, a bydd gan y Trysorydd hawl i gytuno ar gyfraniad uwch tuag at gostau athrawon cyflenwi drwy ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.

ARGYMHELLIR y dylai'r trefniadau uchod, y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/2014, aros yr un fath ar gyfer 2014/2015.



Cyfarfod Cymdeithas CYSAAGau Cymru, Powys (Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llandrindod), 2 Gorffennaf 2014 (10.30am – 3pm)

Wales Association of SACREs meeting, Powys (Council Chamber, County Hall, Llandrindod Wells), 2 July 2014 (10.30am – 3pm)

<p>Ynys Môn / Anglesey Bethan James Rheinallt Thomas</p> <p>Blaenau Gwent Gill Vaisey</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Cllr John Taylor Vicky Thomas Ruth Gray Cllr Michael Gray</p> <p>Caerdydd / Cardiff</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Mary Parry Helen Gibbon Gwyneth Thomas</p> <p>Ceredigion</p> <p>Conwy Phil Lord</p>	<p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord Gavin Craigen</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Phil Lord</p> <p>Gwynedd Bethan James Miriam Amllyn</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Y Cyng. / Cllr Ernie Galsworthy</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Gill Vaisey</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot</p> <p>Casnewydd / Newport Vicky Thomas Huw Stephens Sally Northcott</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire Huw George</p> <p>Powys John Mitson Christine Robinson</p>	<p>Rhondda Cynon Taf</p> <p>Abertawe / Swansea Vicky Thomas</p> <p>Torfaen Vicky Thomas</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Dafydd Treharne</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones</p> <p>Sylwedyddion / Observers Tudor Thomas (CBAC/WJEC)</p>
--	--	--

Cofnodion / Minutes

<p>1. Cyflwyniad a chroeso</p> <p>Estynnodd y Cyngh. Roche Davies groeso cynnes i'r aelodau i Bowys a dywedodd ei fod wrth ei fodd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Pwysleisiodd fod AG yn bwnc unigryw gan ei fod yn cael ei bennu'n lleol a'i bod yn dda ganddo ddweud ei fod yn bwnc poblogaidd yn ysgolion Powys, gan gynnwys ar lefel TGAU. Estynnodd y Cyngh. Roche ei ddymuniadau gorau i'r aelodau ar gyfer y prif gyfarfod a'r CCB y prynhawn yma.</p> <p>Fe gymerodd yr Is-gadeirydd, Gavin Craigen, yr awenau fel cadeirydd y cyfarfod a diolchodd i'r Cyngh. Davies am ei eiriau ac am letya'r digwyddiad.</p> <p>2. Adfyfrio tawel</p> <p>Gofynnodd Gavin Craigen i'r aelodau fyfrio ar eu rôl o ran sicrhau addysg grefyddol o safon sy'n effeithiol, a pha mor hanfodol yw AG heddiw mewn cyfnod pan fo cymaint o eithafiaeth dreisgar yn digwydd.</p> <p>3. Ymddiheuriadau</p> <p>Tania ap Sion, Jen Malcolm, Edward Evans, Sue Cave, Carys Pritchard, Ernie Glasworthy, Meinir Loader, Y Cyngh. Cllr Michael Williams, Wyn Meredith, Dave Mackie, Nicholas Richter, Tim Rowlands. (Mark Durbin)</p> <p>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerffili, 27 Mawrth 2014</p> <p>T4. Eitem 6. Cafwyd trafodaeth am y trefniadau newydd ar gyfer gwefan RENews a chodwyd cwestiynau ynglŷn â sut y bwriedir rhoi cyhoeddusrwydd i'r wefan. Cadarnhawyd na fydd cyfrinair o fis Medi ac felly y bydd unrhyw un yn gallu mynd ar y wefan o hynny ymlaen. Awgrymwyd rhoi dolen o wefan CCYSAGauC i wefan</p>	<p>1. Introduction and welcome</p> <p>Cllr Roche Davies gave members a warm welcome to Powys and said how delighted he was that the meeting was being held within his term of office. He emphasised how RE is a unique subject as it is locally determined and that he was pleased to say it is a popular subject in Powys schools, including at GCSE level. Cllr Roche gave his best wishes to members for the main meeting and the AGM this afternoon.</p> <p>Vice Chair, Gavin Craigen chaired the meeting and thanked Cllr Davies for his words and for hosting the event.</p> <p>2. Quiet reflection</p> <p>Gavin Craigen asked members to reflect on their role in ensuring quality religious education that is effective, and how vital RE is today in a time when so much violent extremism takes place.</p> <p>3. Apologies</p> <p>Tania ap Sion, Jen Malcolm, Edward Evans, Sue Cave, Carys Pritchard, Ernie Glasworthy, Meinir Loader, Y Cyngh. Cllr Michael Williams, Wyn Meredith, Dave Mackie, Nicholas Richter, Tim Rowlands. (Mark Durbin)</p> <p>4. Minutes of meeting held in Caerphilly, 27 March 2014</p> <p>P4. Item 6. A discussion regarding the new RENews website arrangements took place and questions were raised as to how the website will be publicised. It was confirmed that there will be no password from September and therefore anyone can access the website from then on. A link from the WASACRE website to the RENews website</p>
--	---

RENews a chafodd yr awgrym dderbyniad da gan yr aelodau. T6. Eitem 9. Cadarnhaodd Phil Lord fod hysbyslenni ar gyfer y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol yn barod a'u bod wedi cael eu hanfon at y CYSAGau. Mae Phil wrthi'n llunio llythyr i egluro sut y gellir defnyddio'r marc ansawdd ac anogodd y CYSAGau eraill i wneud yr un modd. Mae Vicky Thomas a Gill Vaisey eisoes wedi gwneud hyn yn y CYSAGau y maent hwy'n eu gwasanaethu ac amlygodd Vicky ddefnyddioldeb y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol fel erfyn hunanarfarnu i athrawon hyd yn oed os nad ydynt yn mynd am y marc llawn a phwysigrwydd sicrhau bod yr wybodaeth yn cyrraedd y person cywir yn yr ysgol. Dywedodd Gavin Craigen y byddai'n ddefnyddiol iawn cael adborth gan ysgolion o ran pa mor ddefnyddiol yw'r Marc Ansawdd Addysg Grefyddol a sut y maent hwy wedi'i ddefnyddio. Gallai hyn gael ei rannu wedyn gyda'r CYSAGau i gyd i gael ei gylchredeg i'w hysgolion. T7. Eitem 10. Cywirodd Libby Jones y sillafiad o OFQUAL yn y cofnodion.

Cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd hyn gan Phil Lord gyda Michael Gray yn eilio.

5. Diweddariadau:

(a) CCB y Cyngor AG yng Nghaerdydd
Yn ei adborth dywedodd Gavin Craigen fod yr araith groeso a draddodwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn gan aelodau o'r Cyngor AG (Roedd copi o'r araith wedi'i gynnwys ym mhapurau cyfarfod CCYSAGauC). Roedd yr araith yn cyfleu neges gadarnhaol am Addysg Grefyddol yng Nghymru a chan mai hon oedd yr araith gyntaf gan y Gweinidog a oedd yn cynnwys unrhyw beth am AG roedd yn galonogol iawn. Diweddodd y Gweinidog ei araith trwy wahodd ymateb gan y Cyngor AG i'r adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm yng Nghymru. Cytunodd y CAG i gysylltu â CCYSAGauC cyn anfon ymateb at

was suggested and well received by members. P6. Item 9. Phil Lord confirmed that flyers for REQM are ready and have been sent to SACREs. Phil is putting together a letter to explain how the quality mark can be used and encouraged other SACREs to do the same. Vicky Thomas and Gill Vaisey have already done this in the SACREs they service and Vicky highlighted the usefulness of the REQM as a self-evaluation tool for teachers even if they do not go for the mark and the importance of the information reaching the right person in school. Gavin Craigen pointed out how helpful feedback from schools would be about how useful the REQM is and how they have used it. This could then be shared with all SACREs for circulation to their schools. P7. Item 10. Libby Jones corrected the spelling of OFQUAL in the minutes.

The minutes were accepted as an accurate record of the meeting. This was proposed by Phil Lord and seconded by Michael Gray.

5. Up-dates:

(a) RE Council AGM in Cardiff
In his feedback Gavin Craigen described the welcome speech given by the Minister for Education and Skills, Huw Lewis as being positively received by members of the RE Council (A copy of the speech was included in the WASACRE papers). The speech sent a positive message about Religious Education in Wales and as this was the Minister's first speech that included anything about RE it was very encouraging. The Minister ended his speech by inviting a response from the RE Council to the current curriculum review in Wales. The REC agreed to liaise with WASACRE before sending a response to Welsh Government. Following that meeting a request was sent by WASACRE to the

<p>Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw anfonodd CCYSAGauC gais i swyddfa'r Gweinidog yn gofyn am gael bod yn rhan o'r adolygiad hwnnw. Caniatawyd y cais a gwahoddwyd cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i gyfarfod ar ddydd Gwener 20 Mehefin 2014 gyda'r Athro Graham Donaldson sy'n arwain yr adolygiad. Roedd negeseuon allweddol eraill o CCB y CAG yn cynnwys y cwestiwn parhaus ynglŷn â chynrychiolaeth ar y bwrdd ar gyfer Cymru. Tania ap Sion a Gavin Craigen yw'r cynrychiolwyr ar hyn o bryd, ac mae'r CAG yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau cynrychiolaeth fwy hyblyg yn y dyfodol. Mae CCYSAGauC yn gohebu ar hyn o bryd gyda'r CAG i sicrhau y ceir cynrychiolaeth deg ac effeithiol ar gyfer Cymru. Dywedodd Rheinallt Thomas wrth yr aelodau bod aelodau yng nghyfarfod diweddar Cyngor yr Eglwysi Rhyddion wedi cael eu cymell a'u calonogi gan araith Huw Lewis ac o ganlyniad i hynny bod llythyr wedi cael ei anfon yn annog holl aelodau'r Eglwysi Rhyddion i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am gefnogaeth well i CYSAGau ac i bwysleisio'r angen am ymgynghorwyr AG, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr egwyddorion yn araith y Gweinidog mewn perygl o gael eu colli oherwydd newidiadau mewn consortia. Cadarnhaodd Rheinallt fod sawl llythyr wedi mynd oddi wrth Gyngor yr Eglwysi Rhyddion. Ychwanegodd Vicky Thomas fod athrawon wedi cael eu calonogi gan ei sylwadau, ond bod angen i Lywodraeth Cymru gael ei hatgoffa ohonynt. Dim ond gyda hyfforddiant da, DPP priodol a chefnogaeth a ddarperir gan Awdurdodau Lleol y mae addysg grefyddol o safon dda'n digwydd. Bydd copi o araith y Gweinidog yn cael ei gadw ar ffeil i gael ei ddefnyddio ar adegau priodol. Daeth Gavin Craigen â'r drafodaeth i ben trwy gadarnhau bod llythyr o ymateb oddi wrth y Gweinidog wedi ateb cais CCYSAGauC i gwrdd â'r gweinidog yn flynyddol, fel yr oeddem yn ei wneud gyda Leighton Andrews. Roedd y llythyr yn datgan yr hoffai Huw Lewis ystyried adfer y</p>	<p>Minister's office asking to be part of that review. The request was granted and representatives from the WASACRE Executive committee were invited to a meeting on Friday, 20 June 2014, with Professor Graham Donaldson who is leading the review. Other key messages from the REC AGM included the ongoing issue about representation on the board for Wales. Currently the representatives are Tania ap Sion and Gavin Craigen, the REC are looking in to the possibility of securing a more flexible representation in future. WASACRE is in correspondence with the REC to ensure that a fair and effective representation for Wales is secured. Rheinallt Thomas told members that at the recent Free Church Council meeting members were motivated and encouraged by Huw Lewis' speech and as a result a letter was sent to encourage all Free Church members to write to Welsh Government to request better support for SACREs and to emphasise the need for RE advisors, pointing out that the principles in the Minister's speech are in danger of being lost owing to consortia changes. Rheinallt confirmed that many letters have gone from the Free Church Council. Vicky Thomas added that teachers have been encouraged by his comments, but Welsh Government needs to be reminded of them. High quality religious education only happens with good training, appropriate CPD and support provided by Local Authorities. A copy of the Minister's speech will be kept on file to be used at appropriate times. Gavin Craigen concluded the discussion by confirming that the letter of response from the Minister had answered WASACRE's request to meet with the minister annually, as we did with Leighton Andrews. The letter stated that Huw Lewis would like to give consideration to reinstalling that meeting after the review. Members agreed that WASACRE need to keep an eye on this situation and make sure it happens.</p>
--	--

cyfarfod hwnnw ar ôl yr adolygiad. Roedd yr aelodau'n cytuno bod angen i CCYSAGauC gadw golwg ar y sefyllfa hon a gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

(b) Adolygiad Donaldson

Rhoddodd Libby Jones amlinelliad byr o'r adolygiad o'r cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a lle CCYSAGauC ynddo, o'r cyfarfod yn Nolgellau ar 12 Mehefin lle cwblhawyd yr holiadur, i'r cyfarfod ar 20 Mehefin a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (Tania ap Sion, Libby Jones, Mary Parry, Vicky Thomas, Yr Athro Leslie Francis) a'r Athro Donaldson. Sicrhawyd yr aelodau fod y cyfarfod yn un cadarnhaol a chafodd y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod gyda'r Athro Donaldson eu rhannu. 1. Cyd-destun hanesyddol addysg grefyddol a CCYSAGau mewn addysg yng Nghymru. 2. Y sefyllfa bresennol yng Nghymru. 3. Pwysigrwydd addysg grefyddol a'i chyfraniad at addysg ar gyfer ein pobl ifanc, y tair blaenoriaeth genedlaethol a chydlyniant cymunedol. 4. Pwysigrwydd hyfforddiant i athrawon, gan gynnwys Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon mewn addysg grefyddol. Cododd yr Athro Donaldson y cwestiwn ynglŷn â sylwadau negyddol am AG gan rai disgyblion yr oedd ef wedi cwrdd â hwy fel rhan o'r adolygiad. Cytunodd cynrychiolwyr CCYSAGauC a oedd yn y cyfarfod i anfon rhestr ato o ysgolion lle gall ddod o hyd i arfer gorau mewn AG. Dywedodd Vicky Thomas, a oedd yn y cyfarfod, ei bod wedi cael ei gwneud yn glir iawn y byddai adolygiad o'r cwricwlwm yn dwyn goblygiadau i AG a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer AG. Roedd hi'n teimlo bod yr Athro Donaldson wedi cael y neges yn glir ac y byddai angen i unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm gael eu hystyried ar gyfer AG. Diolchodd Bethan James i'r rhai a oedd yn y cyfarfodydd yn Nolgellau ac yng Nghaerdydd ac ailddatganodd bwysigrwydd dod o hyd i'r ysgolion hynny a all ddarparu enghreifftiau cyfoethog o arfer da mewn AG

(b) Donaldson Review

Libby Jones gave a brief outline of the on-going Welsh Government curriculum review and WASACREs place within it, from the meeting in Dolgellau on 12 June at which the questionnaire was completed, to the meeting on 20 June involving representatives from the WASACRE Executive, (Tania ap Sion, Libby Jones, Mary Parry, Vicky Thomas, Professor Leslie Francis) and Professor Donaldson. Members were assured that the meeting was positive and the main points raised at the meeting with Professor Donaldson were shared. 1. The historical context of religious education and SACREs within Welsh education. 2. The current situation in Wales. 3. The importance of religious education and its contribution to the education of our young people, the three national priorities and community cohesion. 4. The importance of training for teachers, including Initial Teacher Training in religious education. Professor Donaldson raised the issue of negative comments about RE coming from some pupils that he had met with as part of the review. WASACRE representatives at the meeting agreed to send him a list of schools where he can find best practice in RE. Vicky Thomas, who attended the meeting, said that it was made very clear that a review of the curriculum would have implications for RE and the National Framework for RE. She felt that Professor Donaldson had received that message loud and clear and that any changes to the curriculum would need to be considered for RE. Bethan James thanked those who attended both the meeting in Dolgellau and Cardiff and reiterated the importance of finding those schools that can provide rich examples of good practice in RE and urged members to look for such examples and ask their own SACREs to do the same.

ac erfyniodd ar yr aelodau i chwilio am enghreifftiau o'r fath a gofyn i'w CYSAGau hwy eu hunain wneud yr un modd.

(c) EFTRE

Cadarnhaodd Phil Lord fod adroddiad EFTRE wedi cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Gwaith. Roedd y prif bwyntiau o'r adroddiad fel a ganlyn: Pwysigrwydd ymrwymiad aelodau EFTRE; cyllid posibl i rai o'r gwledydd pellach yn Nwyrain Ewrop lle ceir ymrwymiad i AG ac EFTRE ond diffyg arian; y cyfoeth o brofiad ar y bwrdd ac ymrwymiad i wneud y bwrdd yn fwy gweladwy. Erfyniodd Phil ar yr aelodau i fwrw golwg ar y wefan i gael mwy o wybodaeth ac eglurodd ei fod wedi cael cais i lunio rhywbeth i adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru, a fydd ar gael ar y wefan yn y dyfodol. Bydd cylchlythyr yn cael ei greu hefyd a hwnnw'n cynnwys barn disgyblion ac athrawon yng Nghymru. Dywedodd Gavin Craigen ei bod yn bwysig iawn cael y gynrychiolaeth hon a diolchodd i Phil a CCYSAGauC am y gefnogaeth. Diweddodd Phil ei adroddiad trwy ddweud na chafodd Cymru ei chrybwyll am ei rhodd i EFTRE fel y cafodd gwledydd eraill yn y cyfarfod; fodd bynnag cadarnhaodd John Mitson yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith fod y tanysgrifiad o £90.00 ar gyfer 2013 wedi cael ei gyflwyno i EFTRE gan CCYSAGauC. Atgoffodd Rheinallt Thomas yr aelodau fod cronfa wedi'i sefydlu ar un adeg i gefnogi gwledydd Ewropeaidd – Ymddiriedolaeth Walter Stenhouse, a oedd wedi'i lleoli yn y Swistir, ac awgrymodd fod angen i ni ymchwilio i hyn

(d) Hyfforddiant CCYSAGauC

Cyfeiriodd Bethan yn ôl at y gynhadledd ym mis Hydref 2013 a hyfforddiant CA3 Gavin, yr oeddent ill dau yn ei thyb hi wedi sefydlu ffordd dda o lenwi'r bwlch o ran darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon AG nad yw'n cael ei gynnig mwyach gan awdurdodau lleol a chonsortia. Mae papur wedi cael ei greu gan NAPfRE sy'n amlinellu syniadau posibl ar gyfer hyfforddiant.

(c) EFTRE

Phil Lord confirmed that the EFTRE report has been shared with the Executive committee. The main points from the report were as follows: The importance of the commitment of EFTRE members; the possible funding of some of the further Eastern European countries where there is commitment to RE and EFTRE but lack of money; the wealth of experience on the board and a commitment to make the board more visible. Phil urged members to look at the website for further information and explained that he has been asked to put something together to reflect the situation in Wales, which will be available on the website in the future. A newsletter will also be created including views of pupils and teachers in Wales. Gavin Craigen said that it is very important to have this representation and thanked Phil and WASACRE for the support. Phil concluded his report by saying that Wales was not mentioned in their gift to EFTRE as other countries were in the meeting, however it was confirmed in the Executive meeting by John Mitson that the £90.00 subscription for 2013 went to EFTRE from WASACRE. Rheinallt Thomas reminded members that there used to be a fund set up to support Eastern European countries which was based in Switzerland- The Walter Stenhouse Trust, and suggested that we need to look in to this.

(d) WASACRE training

Bethan referred back to the conference in October 2013 and Gavin's KS3 training, both of which she felt established a good way to fill the gap in providing training for RE teachers no longer offered by local authorities and consortia. A paper has been created by NAPfRE outlining possible training ideas.

6. Cyflwyniad NAPfRE: CYSAGau a'r trefniadau Consortia

Dangoswyd cyflwyniad PowerPoint i'r aelodau gan Mary, Gill, Bethan, Libby, Vicky a Phil. Fe ddisgrifion nhw ac fe egluron nhw'r trefniadau newydd ar gyfer pob consortiwm a sut y mae CYSAGau yn cael eu cefnogi bellach ym mhob awdurdod lleol o ganlyniad i'r newidiadau. Yn dilyn y cyflwyniad gofynnodd Rheinallt Thomas a yw CYSAGau yn monitro'r hyfforddiant mewn colegau yn eu hardal oherwydd dylent fod yn gwneud hynny. Mae angen i'r ddeialog honno fod yn digwydd a gall gael ei hwyluso trwy Rachel Bendall yng Ngholeg y Drindod/Abertawe. Cododd Vicky Thomas y cwestiwn ynglŷn â sut y gall CYSAGau barhau i gefnogi awdurdodau lleol mewn addysg grefyddol a'r heriau presennol y mae CYSAGau yn eu hwynebu gan gynnwys personél e.e. beth fydd yn digwydd pan fydd yr ymgynghorwyr presennol wedi mynd a'r cyfrifoldeb am y CYSAGau yn cael ei dynnu oddi wrth arweinwyr system fel Carys? Roedd y neges o hyn yn awgrymu bod angen i'r CYSAGau fod yn fwy rhagweithiol ac yn llai dibynnol ar gynrychiolydd yr ALI/y Consortiwm sy'n gwasanaethu eu CYSAG. Cododd cynrychiolydd y Bedyddwyr ar gyfer CYSAG Powys y pwynt nad yw grwpiau Ffydd yn gwybod am y CYSAGau ac nad yw'r CYSAGau yn gwybod amdanynt hwy. Mae angen mynd i'r afael â hyn.

Cynhaliwyd gweithgaredd ar ôl y cyflwyniad hwn gyda'r aelodau'n gweithio mewn grwpiau i drafod y cwestiynau canlynol:

1. Sut all aelodau gyfrannu at waith y CYSAGau?
2. Sut allwn ni sicrhau presenoldeb rheolaidd o'r 3 grŵp a chan aelodau etholedig?
3. Sut allech chi berswadio pobl i ddod yn aelod o'r CYSAG?
4. Sut allwn ni fonitro Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd?
5. Sut allwn ni roi cymorth i ysgolion

6. NAPfRE presentation: SACREs and current Consortia arrangements

Members were shown a PowerPoint which was presented by Mary, Gill, Bethan, Libby, Vicky and Phil. They described and explained the new arrangements for each consortia and how SACREs are supported now in each local authority as a result of the changes. Following the presentation Rheinallt Thomas asked whether SACREs monitor the training in colleges in their area because they should be doing so. That dialogue needs to be happening and can be facilitated through Rachel Bendall at Trinity college/Swansea. Vicky Thomas raised the issue of how SACREs can continue supporting local authorities in religious education and the current challenges SACREs face including personnel e.g. what happens when the current consultants are gone and the system leaders like Carys have the responsibility for SACRE taken away from them? The message from this suggested that SACREs need to be more proactive and less reliant on the LA/Consortia rep or consultant servicing their SACRE. An issue was raised by the Baptist representative for Powys SACRE that Faith groups don't know about SACREs and SACREs don't know about them. This needs to be addressed.

An activity followed this presentation which involved members working in groups to discuss the following questions:

1. How can members contribute to the work of SACREs?
2. How can we ensure regular attendance from the 3 groups and co-opted members?
3. How could you persuade people to become a SACRE member?
4. How can we monitor Religious Education and collective worship?
5. How can we support schools to deliver

<p>gyflwyno darpariaeth dda o ran AG ac Addoli ar y Cyd?</p> <p>6. Sut allwn ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn cefnogi swyddogaeth CYSAGau ag arian/cyllid digonol?</p> <p>Roedd peth o'r adborth ar y cwestiynau hyn yn cynnwys: Dylai fod gan bob cynrychiolydd ar unrhyw CYSAG ddirprwy i fod yn bresennol yn ei le pan nad yw'n gallu bod yn bresennol ei hun; Mae angen i'r CYSAGau fod yn rhagweithiol o ran cysylltu â grwpiau a mudiadau ffydd trwy eu gwahodd i anfon cynrychiolydd o'u dewis hwy i gyfarfodydd y CYSAG. Gellir gwneud hyn trwy ysgrifennu llythyrau at ysgolion a grwpiau ffydd lleol, gan eu hannog i gefnogi. O ran cynrychiolwyr athrawon, unwaith y mae athro/athrawes wedi cael ei d(d)ewis ar gyfer CYSAG dylid gofyn i'r undeb athrawon a yw'n hapus i'r person hwnnw gynrychioli eu hundeb ar y CYSAG; Mae rhai CYSAGau gan gynnwys Powys yn cynnig y cyfle i aelodau arsylwi ar ddigwyddiadau addoli ar y cyd ac ymweld ag ysgolion yn rheolaidd i helpu'r broses fonitro.</p> <p>Anogodd Phil Lord yr aelodau i fynd â'r gweithgaredd hwn yn ôl i'w CYSAG a thrafod yr atebion i'r cwestiynau hyn gan eu hystyried yn ofalus.</p> <p>7. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Mai 2014</p> <p>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith yw 26 Medi 2014 nid 25 Medi 2014. Cafodd yr adroddiad ei ddiwygio gan Libby Jones ac fe'i derbyniwyd fel cofnod cywir.</p> <p>8. Gohebiaeth</p> <p>Maent i gyd wedi cael sylw mewn eitemau blaenorol neu gan y Pwyllgor Gwaith.</p> <p>9. Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith</p>	<p>good RE and CW</p> <p>6. How can we ensure that local authorities support the function of SACREs sufficient money/funding</p> <p>Some of the feedback from these questions included: Each representative on any SACRE should have in place a deputy who attends in their place when they are unable to attend themselves; SACREs need to be proactive in contacting faith groups and organisations by inviting them to send a representative of their choice to SACRE meetings. This can be done by writing letters to schools and local faith groups, actively encouraging their support. With regard to teacher representatives once a teacher has been selected for a SACRE the teaching union should be asked if they are happy for that person to represent their union on SACRE; Some SACREs including Powys offer members the opportunity to observe collective worship and visit schools on a regular basis to help the monitoring process.</p> <p>Phil Lord encouraged members to take this activity back to their SACRE and to discuss the answers to these questions with careful consideration.</p> <p>7. Report from the Executive Committee held on 14 May 2014</p> <p>The date for the next Executive meeting is 26 September 2014 not 25 September 2014. The report was amended by Libby Jones and was accepted as an accurate record.</p> <p>8. Correspondence</p> <p>All covered within previous items or with the executive committee.</p> <p>9. Nominations for Executive Committee</p>
---	---

Atgoffodd Gavin Craigen yr aelodau fod angen iddynt bleidleisio dros ddau aelod newydd i'r Pwyllgor Gwaith ac fe dechreuodd y broses bleidleisio.

10. U.F.A.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf : 26 Tachwedd 2014, Pont-y-pŵl.

12. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol:

Cyfarfod y gwanwyn – Castell-nedd Port Talbot, 6 Mawrth 2015

Cyfarfod yr haf – Sir y Fflint, 25 Mehefin, 2015

Cyfarfod yr hydref – Blaenau Gwent, 25 Tachwedd

Gavin Craigen reminded members that they are required to vote for two new members to the Executive committee and voting commenced.

10. A.O.B.

11. Date for next meeting: 26 November 2014, Pontypool.

12. Future meeting dates:

Spring meeting- Neath Port Talbot, 6 March 2015

Summer meeting- Flintshire, 25 June, 2015

Autumn meeting- Blaenau Gwent, 25 November 2015



Cadeirydd/Chairman:
Dr Tania ap Sion

Ysgrifennydd/Secretary:
Libby Jones
4 Patten Close
Hawarden
Deeside
CH5 3TH
e-bost/e-mail: libby.jones@wrexham.gov.uk
ffôn/ tel : 01978 317614

27 Hydref, 2014

Annwyl Aelod

Amgaeaf ddogfennau perthnasol ar gyfer cyfarfod CCYSAGauC ar 26 Tachwedd 2014 yn Torfaen. Cychwynnir y cyfarfod am 10.30 gyda choffi ar gael o 10 ymlaen. Rydym yn anelu i orffen erbyn 3yp.

Cynhelir y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Nghanolfan Byw Egnïol, Stryd Trosnant, Pont-y-pŵl NP4 8AT.

Amgeir cyfarwyddiadau.

Yn ddiffuant,

Libby Jones

Libby Jones
Ysgrifennydd CCYSAGauC

27 October, 2014

Dear Member

I enclose the relevant documents for the WASACRE meeting 26 November 2014 in Torfaen. The meeting begins at 10.30 am with coffee available from 10am, and will finish around 3pm.

The meeting will be held at the Pontypool Active Living Centre, Trosnant Street, Pontypool NP4 8AT.

Travel directions are enclosed.

Yours sincerely,

Libby Jones

Libby Jones
Secretary to WASACRE



**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Torfaen
(Canolfan Byw Egnïol, Pont-y-pŵl), 26 Tachwedd 2014
(10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Torfaen (Pontypool
Active Living Centre, Pontypool), 26 November 2014
(10.30am – 3pm)***

Agenda

1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome*
 2. Adfyfrio tawel / *Quiet reflection*
 3. Ymddiheuriadau / *Apologies*
 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhowys, 2 Gorffennaf 2014 / *Minutes of meeting held in Powys, 2 July 2014*
 5. Materion yn codi / *Matters arising*
 6. Diweddariadau/Up-dates
 7. Cyflwyniadau / *Presentations:*
 - NAPfRE: Cyflwyniad gan CBAC – Beth mae'r data yn dysgu i ni / *A presentation by WJEC- What does the data tell us?*
 - CYSAG Sir Fynwy / *Monmouthshire SACRE: Celebrating RE Transition Project (year 6 pupils)*
 - NAPfRE: CYSAGau a'r trefniadau consortia (adborth) / *SACREs and consortia arrangements (feedback)*
 8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Medi 2014 / *Report from the Executive Committee held on 26 September 2014*
 9. Gohebiaeth / *Correspondence*
 10. U.F.A. / *A.O.B.*
 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting: 6 Mawrth 2015 (Castell-Nedd) / 6 March 2015, Neath Port Talbot*
- Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates: 25 Mehefin 2015 (Sir y Fflint, yn cynnwys AGM) / 25 June 2015 (Flintshire, includes AGM); 25 Tachwedd 2015 (Blaenau Gwent) / 25 November 2015 (Blaenau Gwent)*



Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Powys (Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llandrindod Wells), 2 July 2014 (10.30am – 3pm)

Wales Association of SACREs meeting, Powys (Council Chamber, County Hall, Llandrindod Wells), 2 July 2014 (10.30am – 3pm)

